Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau Addysg
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Arolygiad ar y cyd o Dimau Troseddwyr Ifanc Cymru a Lloegr

Adroddiad ar: Wasanaeth Atal Troseddwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin

ISBN: 978-1-84099-178-9

2009

Rhagair

Arolygwyd Gwasanaeth Atal Troseddwyr Ifanc (GATI) Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref 2008, yn ystod pedwerydd cam ein rhaglen arolygu TTI.

Bu i ni ganfod GATI sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel gyda thîm o staff ymroddedig. Mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir.

Ein hasesiad cyffredinol o GATI Sir Gaerfyrddin yw ei fod yn cyrraedd safonau uchel yn y rhan fwyaf o feysydd a cheir llawer o enghreifftiau da o waith adeiladol ac arloesol. Ceir dealltwriaeth drylwyr o'i gryfderau a'i wendidau, ac y mae rhagolygon da ar gyfer datblygu i'r dyfodol.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Chwefror 2009

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y GATI, i aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i'r sefydliadau partner am eu cymorth yn sicrhau bod yr arolygiad hwn yn mynd rhagddo'n hwylus.

Hoffem ddiolch yn benodol i Hellen Richards (cymorth gweinyddol), ac i Davinia Harris cynrychiolydd y GATI), am eu hymroddiad i'r arolygiad.

Arolygydd Arweiniol	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Steve Blackburn Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Mary Browning Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Rose Burgess, Arolygiaeth Prawf EM, Iolo Madoc Jones, Arolygiaeth Prawf EM, Claire Yardley Estyn.*
Aseswyr Ymarfer	*Sarah Ashworth*
Staff Cymorth	*Pippa Bennett*
Tîm Cyhoeddiadau	*Rachel Dwyer, Alex Pentecost*
Golygydd	*Julie Fox, Arolygiaeth Prawf EM*
Cynrychiolydd GATI	*Davinia Harries*

Cynnwys

		Tudalen
	Cydnabyddiaeth	2
	Geirfa	4
	Crynodeb	5
	Argymhellion	9
	Y camau nesaf	9
	Safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth	10
	Rhannu arferion da	12
1.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	15
2.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	18
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu	18
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	24
	Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	30
	Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	31
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC A DDEDFRYDWYD I'W CADW DAN GLO	34
4.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	39
5.	RHEOLAETH AC ARWEINIAD	42
	Arweiniad a chynllunio	42
	Partneriaeth ac adnoddau	44
	Goruchwylio staff, eu datblygu a'u hyfforddi	46
	Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol	48
	Atodiad 2: Data'r arolygiad	49
	Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygiad	52
	Atodiad 4: Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer	52

Geirfa

GYG (ASBO)	Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Asset	Arf asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc
CISP	Panel Cynnwys a Chefnogi Plant Sir Gaerfyrddin
NSG (CPN)	Nyrs Seiciatrig Gymunedol
GEG	Gwasanaeth Erlyn y Goron
GCH	Gorchymyn Cadw dan glo a Hyfforddi
DVD	Disg Fideo Digidol
Estyn	Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru
CHA	Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg
EM	Ei Mawrhydi
HMIC	Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
A Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai EM
A Prawf EM	Arolygiaeth Prawf EM
RhGAD (ISSP)	Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys
Bill	Bwrdd Iechyd Lleol
MAPPA	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth
NEET	Ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
Onset	Arf asesu ar gyfer achosion atal a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
PPO	Troseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth
ACD	Adroddiad Cyn-dedfrydu
RN	Risg o Niwed
RND	Risg o Niwed Difrifol
AAA	Anghenion addysgol arbennig
CAAA	Cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig
CLG	Cytundeb lefel gwasanaeth
ADB	Adroddiad dedfryd benodol
TAPPAS	Tîm o amgylch disgyblion, rhieni ac ysgolion
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
SGTI	System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc
GATI	Gwasanaeth Atal Troseddwyr Ifanc
G/TTI	Gwasanaeth/Tîm Troseddwyr Ifanc

Crynodeb

Meini Prawf	Dyfarniad
Gwaith yn y llysoedd	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	**2**
Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	**4**
Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**2**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo	**2**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**3**
Rheoli ac arwain	**3**

Dyfarniad	Disgrifiad
4	Ardderchog - yn perfformio'n gryf, yn well o lawer na'r gofynion sylfaenol gyda nodweddion eithriadol
3	Da – yn perfformio'n dda, yn gyson well na'r gofynion sylfaenol heb ddim gwendidau o bwys
2	Digonol – cyflawni'r gofynion sylfaenol yn unig
1	Annigonol – nid yw'n cyflawni'r gofynion sylfaenol, gyda llawer o wendidau o bwys

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd gan ynadon y llys ieuenctid, staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion y llysoedd ffydd yn y gwasanaethau cymorth a goruchwylio a ddarperid gan y GATI.
- Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu ac adroddiadau ddedfryd benodol o ansawdd da ac yn defnyddio'r fformat cymeradwy
- Yn ystod yr arolygiad fe'n hysbyswyd fod adborth ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei ddadansoddi o Lys Ieuenctid Llanelli, ac os byddai'n llwyddiannus ei bod yn debygol y câi ei ymestyn i'r ddau lys ieuenctid arall yn yr ardal.
- Darparwyd copïau o'r adroddiad cyn dedfrydu i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ac i'r rhieni/gofalwyr mewn cyfran isel iawn o'r achosion yn unig.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Yr oedd gan y GATI Banel Cynnwys a Chefnogi Plant Sir Gaerfyrddin yn ei le i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant risg uchel a phobl ifanc o wyth i dair ar ddeg oed.
- Yr oedd rhai gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cyfyngid arnynt gan y nifer o staff cymwys a'r nifer o wirfoddolwyr ar gael.
- Roedd amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol ar gael i dywys plant a phobl ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu.
- Yr oedd yr asesiadau'n seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau ac asesiadau blaenorol a chyfredol, safbwyntiau rhieni/gofalwyr a chysylltiadau â gwasanaethau plant a theuluoedd yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd hil ac ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n glir ac ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth yn cael eu nodi, eu hasesu ac yn cael sylw.
- Aseswyd y Risg o Niwed i eraill yn gywir ym mhob achos perthnasol a chytunai'r arolygwyr â'r categori. Roedd panel risg mewnol wedi'i gyflwyno gan y GATI ym mis Hydref 2007 i ystyried achosion yr ystyrid eu bod yn Risg o Niwed i eraill neu lle'r ystyrid bod plant a phobl ifanc yn agored i niwed.
- Yr oedd nifer o swyddi yn y tîm atal ac ymyriadau buan yn dibynnu ar gyllid tymor byr gan greu ansicrwydd ac effeithio ar flaengynllunio a morâl y staff.
- Cawsom fod diffyg cysondeb o ran cwrdd ag anghenion y cynllun ymyrryd cychwynnol. Er bod cynlluniau'n cael eu cwblhau mewn cyfran uchel o'r sampl achosion, ni chwblhawyd hwynt o fewn amserlenni ac nid oeddynt yn amlinellu'n glir pwy fyddai'n darparu'r ymyriadau. Yn ogystal, nid oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhiant/gofalwr wedi llofnodi'r cynllun mewn cyfran uchel iawn o'r achosion a arolygwyd.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

- Lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael eu remandio neu'n cael eu dedfrydu i gyfnod mewn sefydliad diogel, anfonid gwybodaeth allweddol ar unwaith.
- Roedd asesu plant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu dedfrydu i'w cadw dan glo, a hefyd y cyfathrebu â'r sefydliadau yn dda'n gyffredinol.
- Byddai rheolwyr achos yn ymweld â'r sefydliad diogel ac yn cynorthwyo i hwyluso'r broses o roi'r cynllun hyfforddi ar waith ac i baratoi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ar gyfer ei ryddhau.
- Cynigiai'r GATI Raglen Oruchwylio ac Arolygu Dwys a oedd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd cadw dan glo.
- Roedd manteision amlwg i'r gymuned yn sgil lleihau difrifoldeb y troseddu, amlder y troseddu a'r bygythiad i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr.
- Wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac â rhieni/gofalwyr, awgrymwyd bod pethau wedi gwella iddynt yn sgil eu cysylltiad â'r GATI.
- Ni fu i ni ganfod tystiolaeth y cafwyd manteision i'r gymuned drwy'r broses o wneud iawn yn unrhyw un o'r sampl achosion.
- Nid oedd cynllun dysgu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi parhau yn dilyn ei ryddhau mewn cyfran uchel iawn o'r achosion a arolygwyd.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Ar y cyfan, roedd dioddefwyr y cyfwelwyd â hwy a/neu a oedd wedi llenwi holiaduron yn gadarnhaol eu hagwedd at waith y GATI.
- Gwahoddwyd pob dioddefwr i ddarparu adborth a derbyniasant ffurflenni i'r diben hwn. Trafodwyd adborth gan ddioddefwyr fel eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd dyrannu ac adolygu wythnosol, a defnyddiwyd yr adborth i wella gwasanaethau.
- Roedd amrywiaeth o ymyriadau cyfiawnder adferol ar gael gan y GATI a'r rhain yn cynnwys llythyrau ymddiheuro, cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, panelau troseddwyr ifanc, cynadleddau adferol ac amrywiol weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned.
- Yn anaml y byddai dioddefwyr yn mynychu'r paneli troseddwyr ifanc.

Rheoli ac arwain

- Cadeiriwyd y Bwrdd Rheoli gan Brif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Sir Gaerfyrddin. Roedd cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli'n briodol, ac roedd yn cynnig arweiniad a chyfeiriad effeithiol.
- Yr oedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi parhau i ddatblygu ar y cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Yr oedd tystiolaeth dda o integreiddio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc a chynlluniau a strategaethau eraill.

- Roedd ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth yn cael sylw ac roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) o ran Cynllun Iaith ond nid oedd y GATI wedi mynd i'r afael yn llawn â gofynion ieithyddol a diwylliannol penodol y rhieni/gofalwyr a'r plant a'r bobl ifanc yr oedd yn eu gwasanaethu.
- Roedd ysbryd y staff yn dda ac yn gadarnhaol gyda golwg ar y drefn reoli, ymarfer a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.
- Roedd trefniadau goruchwylio ac arfarnu ar gael ar gyfer staff ar bob lefel ac, ar y cyfan, roedd y gwaith hwnnw o'r safon sy'n ofynnol.

Argymhellion

Mae angen newidiadau er mwyn sicrhau'r canlynol*: (nodir pwy sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau):*

(1) fod gan y Bwrdd Rheoli raglen ddatblygu gydnabyddedig ar gyfer ei aelodau, a bod aelodau newydd yn cynefino ac yn cael eu paratoi'n gywir ar gyfer eu swyddogaeth *(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)*

(2) gwella ansawdd gwaith gyda gwasanaethau plant yng nghyswllt diogelu a bregusrwydd (bod yn agored i niwed), a helpu plant a phobl ifanc i 'gadw'n ddiogel' *(Bwrdd Rheoli)*

(3) bod y gwasanaeth yn cael ei staffio'n llawn a pharhaol *(Bwrdd Rheoli)*

(4) bod sylw'n cael ei roi i ofynion y gwasanaeth o ran swyddfeydd, a mannau mynediad lleol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau yn y ddewis iaith a bod y rheini'n cael eu datrys *(Bwrdd Rheoli)*

(5) bod pob agwedd ar y safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag ymarfer ac â rheoli'n cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

(5.1) Cyflawni targedau'r Bwrdd Cyfiawnder Lleol o ran defnyddio dedfrydu i gadw dan glo a remandio yn y ddalfa (*Rheolwr GATI*)

(5.2) gwella ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu, o ran asesu bregusrwydd a'r risg o niwed i eraill, a darparu copïau ar gyfer y plentyn a'r unigolyn ifanc a'u rhieni/gofalwyr *(Rheolwr GATI)*

(5.3) gwella ansawdd asesiadau aml-asiantaeth a chynlluniau ymyrryd gan ganolbwyntio ar asesu a rheoli bregusrwydd a Risg o Niwed i eraill, gan reolwyr achosion a staff arbenigol, gan y gwasanaethau plant a theuluoedd, gan gydweithwyr ym maes addysg, iechyd a thai *(Rheolwr y GATI)*

(5.4) gwella ansawdd y gwaith a'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yng nghyfnod cymunedol dedfryd cadw dan glo *(Rheolwr y GATI)*

(6) datblygu gwaith gyda dioddefwyr a gwaith cyfiawnder adferol ymhellach *(Rheolwr y GATI)*

Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwella sy'n rhoi sylw i'r argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM am gymeradwyaeth bedair wythnos ar ôl i'r adroddiad arolygu hwn gael ei gyhoeddi. Unwaith y cytunir arno, anfonir y cynllun ymlaen i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro'i weithrediad.

Safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth

Plant a phobl ifanc

Llenwodd deuddeg o blant a phobl ifanc holiadur papur ar gyfer yr arolygiad.

- Roedd y plant a'r bobl ifanc yn dweud eu bod yn deall yn dda beth oedd pwrpas eu hymwneud â'r GATI, beth oedd natur gorfodaeth a beth fyddai'r cyswllt yn ei olygu. Dywedodd un unigolyn ifanc: *"Rydw i wedi dechrau cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon fel badminton a mynd i'r gampfa ac mae hynny'n dda gan ei fod yn fy nghadw allan o drwbl."*
- Teimlai'r atebwyr eu bod wedi cael cymorth gydag amrywiaeth eang o faterion ac anghenion, eu bod yn cael eu trin â pharch, a bod popeth yn cael ei wneud i'w helpu i gael y budd mwyaf o'u cysylltiad â'r GATI. Soniasant am gysylltiad effeithiol gyda staff y GATI, ac am lawer o ddatblygiadau er gwell yn eu bywydau.
- Y sgôr bodlonrwydd cyffredinol ar raddfa 1-4 pwynt oedd 3.6.

Ni chynhaliwyd cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc a oedd dan glo am fod llai na phump o blant a phobl ifanc mewn unrhyw un sefydliad diogel yn ystod y cyfnod a arweiniodd at yr arolygiad.

Rhieni/gofalwyr

Llenwyd un holiadur ar ddeg gan rieni/gofalwyr, naill ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Roedd mwyafrif y rhieni/gofalwyr yn meddwl bod cyfraniad y GATI o gymorth. Dywedodd atebwyr yr eglurwyd iddynt adeg y cyswllt cyntaf beth oedd ar gael i'r teulu ac y rhoddwyd ystyriaeth lawn i anghenion ac amgylchiadau unigol y teulu. Dywedodd un rhiant/gofalwr: *"Roedd y cyfan yn gadarn ond yn deg ar fy mab".*
- Yr oedd pob rhiant/gofalydd yn ymwybodol o'r ddedfryd ac roeddynt yn cael eu cynnwys gan roi gwybodaeth iddynt yn gyson. Yr oedd y rhan fwyaf yn credu fod pethau wedi gwella i'w plentyn, ond dim ond 50% a gredai fod pethau wedi gwella ar eu cyfer hwy eu hunain. Yr oedd un rhiant/gofalydd wedi dod yn rhiant-fentor o ganlyniad i ymwneud ei mab â'r GATI.
- Y sgôr bodlonrwydd cyffredinol ar raddfa 1-4 pwynt oedd 3.5.

Dioddefwyr

Llenwyd pum holiadur gan bobl a oedd wedi dioddef yn sgil troseddu gan blant a phobl ifanc, a llenwyd yr holiadur un ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Dywedodd mwyafrif y dioddefwyr fod safon y cysylltu â'r cyswllt gan y GATI yn dda. Ar y cyfan, cawsant wybodaeth lawn a chyson am y broses gyfreithiol a hefyd am y dewisiadau a oedd ganddynt o ran ymwneud â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc dan sylw. Dywedodd un atebydd: *"Byddai'n werthfawr i mi gael gwybodaeth yn nes ymlaen ynghylch sut y mae wedi gwneud."*
- Gwyddai mwyafrif y dioddefwyr y byddai eu manylion personol yn cael eu cadw'n gyfrinachol, a theimlent eu bod yn gallu trafod eu pryderon. Ar y cyfan, nid oeddent yn poeni am eu diogelwch personol. Dywedodd un atebydd: *"Maen nhw'n gwneud gwaith da, mae wedi bod yn ffantastig; maent wedi trin y peth yn dda, a gwn pwy i gysylltu â hwy ar unrhyw adeg".*
- Y sgôr bodlonrwydd cyffredinol ar raddfa 1-4 pwynt oedd 3.2.

Rhannu arferion da

Isod, ceir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y GATI.

Gwaith yn y llysoedd **Maen prawf cyffredinol: 1.1**	Cynhaliodd GATI Sir Gaerfyrddin y llys remand ar gyfer Gorllewin Cymru ar benwythnosau/gwyliau banc. Yr oedd plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu dwyn gerbron y llys hwn mewn argyfwng ac yn wynebu remand yn y ddalfa oni ellid gosod Pecyn Cefnogi Mechnïaeth yn ei le. Dygwyd Morgan gerbron y llys ar fore Sadwrn ac nid oedd modd i'w lystad fod yn bresennol i roi ei ganiatâd a'i gefnogaeth ar gyfer pecyn mechnïaeth gyda chyrffyw. O ddeall hyn, aeth aelod o staff GATI i ymweld â'r cartref cyn mynd i'r llys gan gael caniatâd y llystad ar gyfer monitro electronig a llofnod ar gyfer ffurflen cytuno i fonitro a gafwyd o'r llys yn flaenorol. Ar sail y dystiolaeth hon, penderfynodd y llys i leoli Morgan ar becyn Cefnogi Mechnïaeth sef Raglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys ynghyd â chyrffyw a gaiff ei fonitro'n electronig.
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu **Maen prawf cyffredinol: 2.1**	Yr oedd gan y GATI ystod eang o weithgareddau ataliol ar gael, megis gwersi gitâr, celf a chrefft, pêl-droed a Splash (a oedd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gyfranogi am ddeg wythnos o'r flwyddyn yn ystod gwyliau'r ysgol). Yr oedd gan y GATI wirfoddolwyr a oedd yn darparu cefnogaeth un-i-un ac yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau eraill megis prosiect coedlannau a chwrs diffoddwyr tân ifanc. Yr oedd prosiectau wedi'u hachredu gan Rwydwaith y Coleg Agored fel y gallai plant a phobl ifanc ennill cymwysterau a datblygu sgiliau allweddol.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Maen prawf cyffredinol: 2.9

Y mae'r GATI wedi mabwysiadu cynllun mentora rhieni llwyddiannus iawn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr plant a oedd wedi troseddu neu mewn perygl o droseddu. Yr oedd y mentoriaid yn gweithio'n wirfoddol ac yn cymhwyso drwy gwrs achrededig wyth wythnos gan Rwydwaith y Coleg Agored a oedd yn cael ei redeg gan Relate (mudiad a sefydlwyd i ddarparu cyfleoedd i ddysgu am berthnasoedd). Yr oedd pob mentor wedi profi problemau gyda'u plentyn eu neu eu hunigolyn ifanc eu hunain.

Daeth Emma i sylw GATI oherwydd ymddygiad troseddol ei mab. Aeth aelod o staff GATI i weld Emma yn ei chartref a sefydlodd y byddai'r gwasanaeth mentora o fudd iddi. Yr oedd ganddi hunan-barch isel ac nid oedd ganddi hyder yn ei gallu o ran magu plant. Cyflwynwyd Emma i fentor a ddarparodd gefnogaeth ac anogaeth a'i galluogodd i ddechrau mynychu sesiynau grŵp yn wythnosol. Yn ystod y 12 mis dan y cynllun hwn, tyfodd hyder Emma, bu gwelliant yn ei bywyd yn y cartref, ac yna aeth ymlaen i hyfforddi fel mentor. I ddechrau, yr oedd yn cysgodi mentor profiadol, ond wedyn dyrannwyd ei hachosion ei hun iddi. Yr oedd wedi mynychu cynadleddau achos ac wedi cefnogi rhieni/gofalwyr yn y llys ac o ddydd i ddydd.

Dywedodd Emma: *"Mae cynllun mentora rhieni GATI wedi rhoi fy mywyd yn ôl imi eto."*

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

Maen prawf cyffredinol: 3.1

Y mae'r GATI wedi datblygu *Llawlyfr Teulu* cynhwysfawr a roddwyd i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i Orchymyn Cadw dan Glo a Hyfforddi. Yr oedd y llawlyfr yn darparu gwybodaeth ar ystod o sefydliadau ac yn cynnwys cyfeiriadau a rhifau ffôn perthnasol, gwybodaeth i ymwelwyr, trefniadau cymorth ar gyfer ymweliadau carchar a'r eiddo a ganiateir i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc. Yr oedd hefyd yn cynnwys y prosesau cynllunio ac adolygu, a'r ymyriadau a oedd ar gael yn ystod cyfnodau'r ddedfryd a dreulid dan glo ac yn y gymuned. Yr oedd hwn yn adnodd gwerthfawr a oedd yn ateb nifer o gwestiynau ac yn lleihau'r pryder a wynebai rhieni/gofalwyr pan fyddai eu plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddedfrydu i gyfnod dan glo.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol **Maen prawf cyffredinol: 4.1**	Yr oedd Ioan wedi cyflawni trosedd o fyrgleriaeth a lladrata o sied gardd ac wedi cyflawni iawn yn uniongyrchol i'r dioddefwr oedrannus. Peintiodd Ioan gegin y dioddefwr a thra'n gwneud y gwaith hwn, dechreuodd rannu ag ef beth yr hoffai ei wneud â'i fywyd gan ddweud ei fod eisiau gosod brics. Yr oedd y dioddefwr yn osodwr brics wedi ymddeol ac yr oedd ei fab wedi ymgymryd â'r busnes. Gyda'i gilydd, penderfynodd y dioddefwr a'i fab gynnig prentisiaeth i Ioan, ac yr oedd wedi'i derbyn ac wedi cychwyn arni.
Rheoli ac arwain **Maen prawf cyffredinol: 5.1**	Yr oedd aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi penderfynu ymgysylltu'n uniongyrchol â staff GATI er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u gwaith. Treuliodd un aelod o'r Bwrdd ddiwrnod yn casglu ysbwriel, aeth eraill i gyfarfodydd CISP, mynychu'r llys a chwrdd â phlant a phobl ifanc a staff mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd anffurfiol. Yr oedd y profiadau a gafwyd yn y modd hwn yn gymorth i hyrwyddo gwell dealltwriaeth a bu hyn yn help i chwalu'r rhwystrau a datblygu perthnasoedd mwy cadarnhaol o fewn y gwasanaeth.

1. GWAITH YN Y LLYSOEDD

1.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ac yn llai tebygol o droseddu eto drwy ddarparu gwasanaeth cyn-dedfrydu priodol, gan gynnwys goruchwyliaeth adeg mechnïaeth a rhaglenni cymorth.

Yr oedd y GATI yn gwasanaethu tri llys ieuenctid o fewn ffiniau Cyngor Sir Gaerfyrddin. Yr oedd dau lys yn cyfarfod yn wythnosol a'r trydydd bob pythefnos. Roedd trefniadau yn eu lle i wasanaethu llysoedd arbennig a gynhelid yn ystod yr wythnos, llysoedd a gynhelid ar y penwythnos neu ar wŷl banc a Llysoedd y Goron. Roedd cymorth llawn yn cael ei gynnig ar gyfer pob llys gan staff cymwysedig a phrofiadol y GATI a oedd wedi'u lleoli yn y tîm arbenigol rheoli remand a llysoedd. Roedd staff a wnâi ddyletswyddau llys yn derbyn hyfforddiant ar bob agwedd o'r gwaith.

Yr oedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth GATI gyda'r llysoedd yn sicrhau fod rhestrau llysoedd ar gael un diwrnod gwaith llawn cyn gwrandawiad, neu cyn gynted â phosibl pan oedd newidiadau neu lysoedd arbennig yn cael eu trefnu ar fyr rybudd.

Cryfderau:

(1) Yr oedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth GATI gyda thîm troseddwyr ifanc mynych yr heddlu yn sicrhau fod y tîm rheoli remand a llysoedd yn derbyn hysbysiadau am droseddau gan yr heddlu'n awtomatig yn ddyddiol, ac yr oedd cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal rhwng y ddau dîm i ganolbwyntio ar weithredu achosion, bregusrwydd, rheoli Risg o Niwed a rhannu gwybodaeth. Cymerwyd safiad rhagweithiol o ran achosion llys i sicrhau y tynnwyd sylw GATI a'u bod yn barod i roi gwybodaeth i'r llys am yr holl blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o gael eu cadw ar remand yn y ddalfa neu mewn sefydliad diogel.

(2) Roedd gan ynadon y llys ieuenctid, GEG a swyddogion y llys ffydd yn y gwasanaethau cymorth a goruchwyliaeth a gynigid gan y GATI, gan gynnwys ym maes mechnïaeth amodol, cymorth adeg mechnïaeth, mechnïaeth y RhGAD a remand heb fod dan glo. Clywsom fod staff y GATI bob tro'n gweithredu'n ddi-oed, yn enwedig pan ystyrid rhoi rhywun ar remand dan glo. Lle'r oedd hynny'n briodol, byddai'r GATI yn trafod ystyriaethau ynglŷn â rheoli'r Risg o Niwed gyda'r GEG yng nghyswllt darparu cymorth mechnïaeth yn y gymuned ac yn dadlau o blaid pecynnau credadwy amgen yn hytrach na chadw dan glo. Yr oedd staff GATI hefyd yn asesu bregusrwydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc drwy ymgynghori â rheini/gofalwyr a gwasanaethau plant. Oni fyddai plant a phobl ifanc yn cydweithredu, cymerai'r GATI gamau i ddod â hwy yn ôl i'r llys ar y cyfle cynharaf.

(3) Os oedd plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi ar remand mewn canolfan gadw ddiogel neu dan glo, byddent yn cael eu cyfweld a'u hasesu i weld pa mor agored i niwed yr oeddent gan drosglwyddo'r wybodaeth i'r sefydliad diogel ar unwaith, drwy ddefnyddio'r 'system amlen felen' electronig ddiogel. Yna, byddai gweithiwr y GATI yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd cynllunio remand a gynhelid o fewn y safon genedlaethol o bum niwrnod a, lle bo hynny'n briodol, yn cyflwyno ceisiadau pellach am fechnïaeth gyda phecynnau cymorth amgen.

Meysydd i'w gwella:

(1) Y canran o ddedfrydau cadw-dan-glo a ddefnyddid ar gyfer y ddwy flynedd rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2006 wedi gostwng o 6.2% (24) i 6.1% (21). Yr oedd hefyd yn dda nodi, yn ystod chwarter cyntaf 2008 fod y GATI yn symud yn nes at darged y BCI o 5%. Er bod gostyngiad, roedd lle i wella eto.

(2) Roedd y defnydd a wnaed o remandio dan glo fel canran o'r holl achosion remand ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, yn 53.7% (22) o'i gymharu â tharged cenedlaethol 30%. Gostyngodd hyn i 14.2% (16) am y cyfnod Ebrill 2007 i Fawrth 2008 ac yn ystod chwarter cyntaf 2008 yr oedd yn symud yn nes at darged y BCI o 9%. Yr oedd y duedd ar i lawr, ond yr oedd lle i wella gan nad oeddid yn cwrdd â tharged y BCI.

1.2 Maen prawf cyffredinol:

Cynorthwyir y llysoedd i wneud penderfyniadau prydlon ac effeithiol ar sail gwybodaeth drwy fod y TTI yn darparu adroddiadau o safon a gwybodaeth briodol.

Cryfderau:

(1) Roedd cynrychiolwyr llys yr ynadon, swyddogion y llys a'r GEG y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr arolygiad hwn yn canmol gwaith cyswllt y GATI yn y llys ac roedd ganddynt ffydd yn y ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid lleol. Yr oeddynt yn arbennig o falch o'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer llysoedd arbennig a llysoedd ar benwythnosau a gwyliau banc. Dywedid bod staff y GATI yn wybodus a'u bod yn ymddwyn yn broffesiynol.

(2) Cyflwynid Adroddiadau Cyn Dedfrydu ac Adroddiadau Cosb Benodol o fewn yr amserlenni angenrheidiol ac roedd eu safon yn uchel.

(3) Yr oedd rheolwr gweithrediadau tîm rheoli remand a llysoedd GATI yn mynychu'r Grŵp Defnyddwyr Llysoedd a chyfarfodydd Ynadon y Panel Ieuenctid. Yr oedd digwyddiadau ar y cyd wedi'u trefnu gydag ynadon a staff y llysoedd, ac yr oedd staff GATI wedi rhoi cyflwyniadau rheolaidd ar wahanol agweddau ar eu gwaith er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ennyn hyder. Yr oedd cadeirydd y llys ieuenctid yn mynychu'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd yn Gynnar.

(4) Roedd gan y GATI drefniadau sicrhau ansawdd, ac roedd pob adroddiad yn cael ei sgrinio gan reolwyr achosion eraill a chyda chefnogaeth rheolwr gweithredol neu uwch ymarferydd. Yr oedd y gwersi a ddysgwyd o'r sgrinio wedi'u bwydo'n ôl yn ffurfiol i staff drwy gyfrwng adroddiad ysgrifenedig ac wedi'u trafod mewn gweithdy datblygu staff. Roedd staff y GATI a oedd yn gwneud gwaith llys wedi cael hyfforddiant ar y safonau cenedlaethol ac roedd ganddynt y cymwysterau a'r profiad priodol i wneud y gwaith hwn.

(5) Roedd cyfran fawr iawn o sampl yr adroddiad, roedd yr ACD o'r math priodol, yn defnyddio'r fformat a gymeradwywyd yn genedlaethol ar gyfer ACD, wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni, yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol oddi ar Asset; nid oeddent yn cynnwys iaith wahaniaethol na stereoteipiau; ac roeddynt yn gytbwys, wedi'u gwirio ac yn ffeithiol gywir.

(6) Yr oedd 79% o'r adroddiadau llys a archwiliwyd gennym yn cynnwys dadansoddiad o'r trosedd yn hytrach na disgrifiad; yr oedd 83% yn amlinellu effaith niweidiol posibl cadw dan glo; ac yr oedd 94% yn gwneud cynnig eglur o ran dedfryd.

(7) Cyfwelwyd â mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr o leiaf unwaith at ddiben penodol llunio'r ACD.

(8) Yr oedd y GATI yn derbyn adborth uniongyrchol o'r llysoedd drwy'r Uwch Gynghorydd Cyfreithiol gyda chyfrifoldeb arweiniol dros lysoedd, a oedd hefyd yn aelod o'r Bwrdd Rheoli. Yr oedd uwch reolwyr GATI ac aelod o staff hefyd yn mynychu paneli'r llys ieuenctid a chyfarfodydd defnyddwyr llysoedd. Yn ystod yr arolygiad fe'n hysbyswyd y cynhaliwyd ymarfer yn cynnwys mwy o adborth ysgrifenedig o Lys Ieuenctid Llanelli ac mae'r canlyniadau'n cael eu coladu ar gyfer eu hystyried gan y GATI a'r ynadon.

Maes i'w wella:

(1) Darparwyd copïau o'r adroddiad cyn dedfrydu i'r plentyn neu'r person ifanc mewn pedwar yn unig allan o 19 o achosion, ac i'r rhieni/gofalwyr mewn 3 o'r 12 achos perthnasol yn unig. Esboniwyd yr adroddiad yn llawn i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhieni/gofalwyr mewn oddeutu 50% o sampl yr adroddiad.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **da.**

2. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu

2.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu bobl eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Yr oedd gan y GATI dîm atal ac ymyrryd yn gynnar dan arweiniad rheolwr gweithredol. Yn amlwg, yr oedd y tîm yn cael ei ystyried yn ganolbwynt ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, ac yn cael ei ariannu yn y tymor byr drwy gyfrwng grantiau amrywiol gan gynnwys, y BCI, Cymorth (cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwasanaethau plant) a'r Gronfa Cymunedau Mwy Diogel. Yr oedd y Bwrdd Rheoli'n ceisio sicrhau arian mwy parhaol.

Cryfderau:

(1) Yr oedd gan y GATI banel CISP yn ei le yn cwmpasu holl ardal ddaearyddol y sir. Yr oedd y Panel Cynnwys a Chefnogi Plant Sir Gaerfyrddin (CISP) yn fenter amlasiantaeth a oedd yn cael ei chydlynu gan GATI i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y plant a'r bobl ifanc rhwng wyth a thair ar ddeg oed a oedd fwyaf tebygol o droseddu. Roedd gan y panel broses gynhwysfawr ar gyfer cyfeirio, asesu ac adolygu achosion unigol ac roedd yn blaenoriaethu bregusrwydd neu risg o niwed unigolyn ifanc i eraill. Yr oedd hefyd yn galluogi achosion i gael eu cyfeirio ar gyfer cynadledda grŵp teulu; proses a oedd yn galluogi aelodau teulu i gwrdd â'i gilydd a gwneud cynlluniau i ddatrys eu trafferthion gan ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain a'r rhai a oedd ar gael drwy CISP ac asiantaethau partner.

(2) Yr oedd naw o'r deg cyfeiriad a arolygwyd gennym ni yn amlwg yn gysylltiedig â meini prawf y cynllun ac wedi cael eu gwirio gan ddefnyddio prosesau y cytunwyd arnynt yn lleol. Cwblhawyd Onset mewn saith o'r deg achos ac yr oedd o ansawdd digonol ac o fewn yr amserlenni priodol mewn 88% o'r achosion hynny. Yr oedd y tri achos lle na chwblhawyd Onset yn achosion lle yr oedd rhieni/gofalwyr yn gwrthod cymryd rhan yn y broses. Yr oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhieni/gofalwyr wedi cael eu cyfweld o leiaf unwaith ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym, ond methodd tri ag ymgysylltu yn dilyn y cyfweliad cychwynnol. Roedd gweithiwr proffesiynol/allweddol arweiniol wedi'i enwebu ar gyfer pob achos.

(3) Yr oedd yr asesiadau'n seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau ac asesiadau blaenorol a chyfredol, safbwyntiau rhieni/gofalwyr a chysylltiadau â gwasanaethau plant a theuluoedd yn y rhan fwyaf o achosion. Nodwyd ffactorau cadarnhaol megis ffactorau cefnogol a pro-gymdeithasol ym mhob achos ac yr oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i

wahodd ac wedi llenwi holiadur hunanasesu *Over to You* yn wyth o'r deg achos a arolygwyd. Yr oedd y ddau a oedd heb eu llenwi ar gyfer plant ac unigolion ifanc a oedd wedi methu ag ymgysylltu â'r broses.

(4) Lle'r oedd rhieni/gofalwyr wedi bod yn ymwneud â'r asesiad, roedd yr asesiad hwnnw'n adlewyrchu'r anghenion penodol a nodwyd gan y rhiant/gofalwr ym mhob achos yn y sampl. Roedd hil ac ethnigrwydd wedi'u cofnodi'n glir yn wyth o'r deg achos, ac ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth wedi'u hasesu'n gadarn, wedi'u nodi ac wedi cael sylw yn yr achosion hynny.

(5) Cynhaliwyd ymweliad pwrpasol ac amserol â'r cartref mewn naw o'r deg achos a arolygwyd ac yr oedd cynllun ymyrryd cychwynnol yn rhoi sylw i'r tebygolrwydd o ymddygiad troseddol yn 71% o'r achosion a arolygwyd Yr oedd y cynllun yn sensitif i faterion amrywiaeth mewn 75% o'r achosion ac yr oedd cynnydd yn erbyn amcanion y cynllun ymyrryd wedi'i adolygu yn 75% o'r sampl achosion yn seiliedig ar adolygiad o'r asesiad Onset.

(6) Aseswyd y RN i eraill yn gywir ym mhob achos perthnasol a chytunai'r arolygwyr â'r categori. Roedd panel risg mewnol wedi'i gyflwyno gan y GATI ym mis Hydref 2007 i ystyried achosion yr ystyrid eu bod yn peri Risg o Niwed i eraill neu lle'r ystyrid bod plant a phobl ifanc yn agored i niwed.

(7) Yr oedd gan y GATI banel risg a bregusrwydd a oedd yn cynnal cyfarfodydd misol i adolygu risg er mwyn canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny y nodwyd yn ystod y broses asesu eu bod yn agored i niwed neu'n risg o niwed i eraill. Yr oedd y cyfarfod asesu ac adolygu wythnosol â chyswllt agos â'r cyfarfod misol gydag eitem sefydlog ar yr agenda i ystyried bregusrwydd a Risg o Niwed. Yr oedd gwaith y cyfarfod adolygu risg misol yn cael ei ategu gan y polisi rheoli risg ac yn cael ei wasanaethu gan reolwyr gweithredol timau craidd GATI, a oedd hefyd yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd asesu ac adolygu wythnosol. Yr oedd cofnodion yn cael eu cadw o'r cyfarfodydd misol a sefydlwyd cofrestr risg i olrhain y plant a'r bobl ifanc hynny yr ystyriwyd bod eu RND yn uchel neu eu bod yn agored i niwed. Roedd amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol ar gael i dywys plant a phobl ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Yr oedd gan y GATI raglen 'Splash' helaeth yn ystod gwyliau'r ysgol ac yr oeddynt wedi ymgysylltu â Gwobr Dug Caeredin. Yr oedd gan y GATI Gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Tân ac yr oeddynt wedi bod yn ymwneud â phrosiect Phoenix a oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc i ddysgu mwy am beryglon gyrru dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol ac ynghylch tân a'i ganlyniadau. Yr oedd y GATI hefyd yn cyfranogi yn y rhaglen atal 'Crime of your Life' mewn ysgolion yn y sir. Gwelsom dystiolaeth hefyd o raglenni hamdden a chelf a chrefft a oedd wedi'i hachredu, gan alluogi plant a phobl ifanc i ennill cymwysterau a sgiliau allweddol. Yr oedd y GATI hefyd yn gwneud defnydd da o DVDs a thaflenni gwaith ar sail unigol gyda phlant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu.

(8) Cawsom fod gwaith effeithiol yn digwydd rhwng y GATI ag asiantaethau partner a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni ataliol. Yr oedd gwybodaeth yn cael ei gyfleu'n effeithiol, gwaith yn cael ei gyflawni o fewn amserlenni

rhesymol ac yr oedd cyfyngu ar yr amser, ac yr oedd strategaethau ymadael effeithiol yn cynnwys ymrwymiad gan bartneriaid mewn cyfran uchel o'r sampl achosion. Bu cyswllt rhwng y GATI â'r gwasanaethau plant a theuluoedd lleol, ac yr oedd statws gofal wedi'i gofnodi'n glir ym mhob un o'r sampl achosion. Gwnaed cyfeiriadau at y gwasanaethau plant a theuluoedd lleol ym mhob achos perthnasol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yr oedd nifer o swyddi yn y tîm atal ac ymyriadau buan yn dibynnu ar gyllid tymor byr gan greu ansicrwydd ac effeithio ar flaengynllunio a morâl y staff.

(2) Cawsom fod diffyg cysondeb o ran cwrdd ag anghenion paratoi ar gyfer y cynllun ymyrryd cychwynnol. Er bod cynlluniau'n cael eu cwblhau mewn cyfran uchel o'r sampl achosion, ni chwblhawyd hwynt o fewn amserlenni rhesymol ac nid oeddynt yn amlinellu'n glir pwy fyddai'n darparu'r ymyriadau yn 50% o'r sampl achosion. Yn ogystal, nid oedd y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr wedi gweld a llofnodi'r cynllun mewn pump o'r deg achos a arolygwyd.

2.2 Maen prawf cyffredinol:

Mae iechyd plant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu'n cael ei hyrwyddo drwy waith y TTI a'i bartneriaid.

Cryfderau:

(1) Yr oedd anghenion iechyd plentyn neu unigolyn ifanc a oedd mewn perygl o droseddu yn cael eu sgrinio fel mater o drefn gan staff iechyd GATI a oedd wedi'u lleoli o fewn y tîm. Yr oedd y rhain yn cynnwys y nyrs CAMHS, gweithiwr iechyd cyffredinol, y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gweithiwr iechyd a oedd wedi derbyn hyfforddiant ym maes cynllunio teulu. Canfuom dystiolaeth fod staff GATI yn nodi anghenion corfforol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'n gywir.

(2) O'r deg achos yn y sampl achosion, nid oedd gan yr un ohonynt anghenion iechyd corfforol, yr oedd tri ohonynt ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl a dau gydag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau. Aseswyd pob un o'r achosion hyn yn gywir, rhoddwyd cefnogaeth i dri ohonynt gael mynediad at wasanaethau mewnol neu allanol yn lleol, ac nid oedd un ohonynt angen cefnogaeth.

(3) Drwy'i waith, yr oedd y GATI wedi canfod bwlch yn y ddarpariaeth iechyd, a thrwy gyfrwng ei dystiolaeth, wedi cyfrannu at sefydlu tîm iechyd pobl ifanc dan y BILl a sefydlwyd i dargedu grwpiau o blant a phobl ifanc a oedd yn agored i niwed ac yn profi anghydraddoldebau o ran darpariaeth iechyd.

(4) Cawsom fod cyfathrebu a chydlynu da rhwng staff y GATI a staff iechyd allweddol eraill y tu allan i'r tîm, megis y nyrs ysgol a CAMHS.

(5) Yr oedd staff y GATI yn cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau dychmygus a phriodol, ac yn ymgysylltu â hwy drwy raglenni gwaith unigol a oedd yn eu hannog i beidio â chamddefnyddio sylweddau.

Maes i'w wella:

(1) O'r tri achos a gyfeiriwyd at wasanaethau lleol mewn perthynas â materion emosiynol ac iechyd meddwl, yr oedd tystiolaeth fod un wedi erbyn gwasanaeth. O ran yr un achos a gyfeiriwyd at wasanaethau prif ffrwd yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y darparwyd ymyriad.

2.3 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu'n cael eu diogelu drwy waith y TTI a'i bartneriaid, er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'u lles, a lle bo'n briodol, i'w hamddiffyn.

Cryfderau:

(1) Yr oedd gan y GATI fynediad at gronfa ddata CareFirst y gwasanaethau plant yn ogystal â chofrestr amddiffyn plant Cyngor Sir Gaerfyrddin. Yr oedd pob plentyn, gan gynnwys y rhai oedd mewn perygl o droseddu yn cael eu gwirio yn y lle cyntaf yn erbyn y cronfeydd data hyn. Yr oedd plant a phobl ifanc hefyd yn cael eu diogelu gan bresenoldeb rheolwr tîm gwasanaethau plant ar y panel CISP.

(2) Roedd y GATI wedi mynd ati'n frwd i ymwneud â'r gwasanaethau plant a theuluoedd er mwyn sicrhau beth oedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc, ac roedd hyn wedi'i gofnodi'n glir ym mhob achos. Roedd tystiolaeth o gysylltiad rhwng gweithiwr y GATI a'r gwasanaethau plant ym mhob un o'r achosion lle yr oedd cyswllt yn ofynnol mewn perthynas â Phlant yn Derbyn Gofal ac amddiffyn plant. Aseswyd y broses ddiogelu'n llawn ac yn gywir ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc ar sail unigol a hynny wedi'i seilio ar gynllun ym mhob achos a arolygwyd.

(3) Roedd tystiolaeth i ddangos bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi bod yn risg iddynt hwy eu hunain neu fod pobl eraill yn peri risg iddo/iddi ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Roedd cynlluniau gweithredu agored-i-niwed wedi'u cynhyrchu i liniaru unrhyw angen a welwyd mewn tri achos. Yr oedd cynnwys y cynllun gweithredu'n cwrdd â'r angen a aseswyd ac yr oedd cyfeiriad wedi'i gyfleu'n effeithiol o fewn yr amserlenni gofynnol i wasanaethau plant ym mhob un o'r achosion perthnasol.

(4) Ystyriwyd fod y dosbarthiad RND yn gywir ym mhob achos perthnasol, ymdriniwyd yn drwyadl â materion dioddefwyr, a chwblhawyd cynllun rheoli risg yn briodol mewn pedwar achos perthnasol. Adolygwyd y Risg o Niwed o eraill yn dilyn newid sylweddol mewn un achos perthnasol.

2.4 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu'n cael eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Cryfderau:

(1) Yr oedd plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a oedd yn darparu cyfleoedd dysgu drwy leoliadau addysgol a chyfleoedd hamdden. Yr oedd cysylltiadau da gydag ysgolion, colegau ac asiantaethau gwirfoddol i'r diben hwn. Yr oedd y GATI wedi cyfrannu at ddatblygu pecyn adnoddau ar ymddygiad a ddefnyddid gan athrawon i helpu i ganfod plentyn neu unigolyn ifanc a oedd mewn perygl penodol o droseddu. Yr oedd plant a phobl ifanc yng nghyfnod allweddol pedwar yn cael eu targedu gan y GATI ac yn cymryd rhan mewn prosiectau achrededig a oedd yn darparu cymwysterau a sgiliau allweddol. Hefyd, llwyddwyd i gael lleoliadau unigol a oedd yn galluogi plant a phobl ifanc i barhau â'u haddysg, canfod swyddi neu gwblhau'r rhaglen Feel Good i hyrwyddo hunan-barch a hyder.

(2) Roedd tystiolaeth o anghenion addysgol statudol prif ffrwd mewn dau o'r deg achos a arolygwyd. Roedd asesiad Onset yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cyfeirio'r ddau achos a darparwyd tystiolaeth i ddangos y cynigiwyd ymyriad yn gysylltiedig â'r angen a nodwyd.

(3) Nid oedd datganiad AAA ar gyfer yr un achos a arolygwyd ac felly ni chysylltwyd gyda'r CAAA na'r seicolegydd addysg. Nid oedd yr un o'r deg achos yn y sampl wedi'i eithrio'n barhaol o'r ysgol yn ffurfiol ychwaith.

Meysydd i'w gwella:

(1) Cawsom nad oedd anghenion CHA plant neu bobl ifanc yn cael eu nodi a'u rhannu'n ddigon buan yn ystod eu gyrfa ysgol, er mwyn lleihau'r risg o droseddu.

(2) Nid oedd pryderon ynghylch sgiliau addysgol sylfaenol plentyn neu unigolyn ifanc yn cael eu nodi nac yn erbyn sylw gan staff GATI er gwaethaf tystiolaeth ar ffeiliau achosion o sillafu a sgiliau ysgrifennu gwael a sylwadau a wnaed yn achlysurol gan rieni/gofalwyr. Yr oedd y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnig cefnogi'r GATI gydag asesu sgiliau sylfaenol ac yr oedd hyn dan ystyriaeth adeg yr arolygiad.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **da.**

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

2.5 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu bobl eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Wedi nodi fod rheoli risg a bregusrwydd yn faes gwan, cytunwyd ar bolisi rheoli risg ym mis Medi 2007, a sefydlwyd panel risg a bregusrwydd ers mis Hydref 2007 i weithredu'r polisi. Yr oedd pob cyfeiriad i'r GATI yn destun asesiad bregusrwydd a Risg o Niwed yn cwmpasu achosion risg uchel, canolig ac isel. Byddai achosion MAPPA, RND ac achosion a ddynodwyd yn rhai a berai risg ganolig, uchel neu uchel iawn, neu RN i eraill, yn cael eu cyfeirio at y panel iddynt eu hystyried. Yr oedd y panel yn cwrdd yn fisol, ond yr oedd trefniadau yn eu lle i adolygu'r achosion mwyaf brys yn y cyfarfodydd dyrannu ac adolygu wythnosol. Roedd y GATI wedi datblygu 'cofrestr risg' ar gyfer plant a phobl ifanc yr aseswyd fod eu RN yn uchel i eraill a/neu a oedd yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant. Roedd y panel yn gyfrifol am ddyfeisio ac am adolygu'r cynlluniau rheoli risg.

Cryfderau:

(1) Cwblhawyd Asset cychwynnol mewn pryd, gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'r rhieni/gofalwyr yn cyfrannu at hynny'n unol ag amserlenni'r safon genedlaethol mewn dros 93% o'r achosion. Nodwyd ffactorau cadarnhaol, megis ffactorau cefnogol a phro-gymdeithasol, mewn 93% o'r achosion. Lle'r oedd rhieni/gofalwyr wedi bod yn ymwneud â'r asesiad, roedd yr asesiad hwnnw'n adlewyrchu'r anghenion penodol a nodwyd gan y rhiant/gofalwr ym mhob un o'r achosion.

(2) Gwahoddwyd y plentyn neu'r unigolyn ifanc i lenwi ffurflen hunanasesu *Beth yw'ch barn chi?* yn 70% o'r achosion a llenwyd y ffurflenni gan 95% o'r rhai a wahoddwyd.

(3) Roedd gan y GATI system i fonitro ansawdd asesiadau Asset wrth oruchwylio achosion unigol, drwy gyfrwng sesiynau gwaith grŵp ar ddiwrnodau datblygu staff, a thrwy fod rheolwyr llinell yn samplo achosion. Cawsom fod safon yr Asset cychwynnol o ansawdd digonol yn 22 o'r 30 achos a arolygwyd.

(4) Roedd hil ac ethnigrwydd wedi'u cofnodi'n glir mewn 94% o'r sampl achosion. Lle'r oedd ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethol/anfanteisiol posibl, ac anghenion unigol eraill wedi'u nodi, roedd trefniadau wedi'u gwneud i liniaru eu heffaith yn 96% o'r achosion a arolygwyd.

(5) Rhoddid sylw i'r dulliau a fyddai fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda phob plentyn neu unigolyn ifanc yn 90% o'r sampl achosion.

(6) Cawsom fod y RN i eraill wedi'i asesu'n gywir yn 93% o'r achosion ac yr oedd y dosbarthiad RND yn ymddangos yn gywir yn y chwe achos perthnasol a arolygwyd. Yr oedd y ffurflen RND i eraill wedi'i llenwi i safon ddigonol ac yn

cwmpasu materion dioddefwyr yn drwyadl ym mhump o'r achosion hynny.

(7) Lle'r oedd Asset RND wedi nod categori RND uchel iawn, roedd hyn wedi'i gyfleu wrth yr holl staff a oedd yn ymwneud â'r achos a, lle bo hynny'n berthnasol, wrth unigolion eraill, ac roedd tystiolaeth bod uwch reolwyr yn ymwneud â'r achosion hynny.

(8) Lle'r oedd hynny'n briodol yr oedd y GATI yn gysylltiedig â MAPPA a'r trefniadau diogelu plant lleol. Yr oedd y cyfarfodydd adolygu risg yn rhai mewnol i'r GATI, ond y bwriad oedd datblygu dull aml-ddisgyblaeth o asesu a rheoli'r RN i'r cyhoedd a/neu fregusrwydd plentyn neu unigolyn ifanc. Yr oedd y GATI wedi datblygu rhaglen hyfforddi addas ar gyfer yr holl staff, ac mewn partneriaeth gyda TTI Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, wedi cynllunio rhaglen tri diwrnod i ganolbwyntio ar RN a rheoli bregusrwydd.

(9) Adolygwyd pob achos yn ystod sesiynau goruchwylio gyda'r rheolwyr achos, gyda'r uwch reolwr perthnasol yn arolygu.

(10) Roedd ymweliad pwrpasol a phrydlon â'r cartref wedi bod mewn 83% o'r achosion gan ail-ymweld yn ôl y gofyn, ac yr oedd amlder apwyntiadau'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol yn 89% o'r achosion.

(11) Yr oedd yr hyfforddiant cynefino a ddarparwyd ar gyfer y plentyn neu'r unigolyn ifanc a oedd ar fin cychwyn ar orchymyn yn amserol a chynhwysfawr mewn dros 85% o'r achosion yn y sampl Yr oedd gan y GATI gyfres o becynnau cynefino yn eu lle a llyfrau gwaith yn cwmpasu'r ystod llawn o orchmynion ac yr oedd y rhain yn cael eu defnyddio fel mater o drefn gan reolwyr achos.

(12) Yr oedd cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn cwrdd â'r safon ofynnol ar gyfer rhoi sylw i wneud iawn i'r dioddefwr neu'r gymuned ehangach a'r tebygolrwydd o ymddygiad troseddol mewn deg achos perthnasol. Roedd y cynnydd gyda golwg ar amcanion y cynllun ymyrryd wedi'i adolygu'n unol â'r safonau cenedlaethol ym mhob un o'r achosion hyn.

(13) Yr oedd cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn cael eu cwblhau o fewn amserlen briodol yn yr 11 achos cymunedol a arolygwyd gennym, ac roeddynt yn amlinellu'n glir pwy fyddai'n darparu'r ymyriadau yn naw o'r achosion hynny. Yr oeddynt hefyd yn rhoi sylw i'r tebygolrwydd o aildroseddu, aros yn ddiogel ac ymyrraeth gymunedol ac amrywiaeth mewn cyfran uchel o'r sampl achosion.

(14) Yr oedd adolygiad o Asset yn goleuo'r adolygiad o'r cynllun ymyrryd ym mhob un o'r achosion. Adolygwyd Asset y RN i eraill dri mis ar ôl dyddiad yr Asset blaenorol fan hwyraf, ac yna bob tri mis wedyn, mewn 71% o'r sampl achosion.

(15) Gwelwyd cydweithio rhwng y GATI a gwasanaethau plant a theuluoedd lleol ac eraill, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth a darparu'r cynllun ymyrryd a hynny'n effeithiol mewn 78% o'r sampl achosion.

(16) Roedd ymyriadau adeiladol yn herio'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn llwyddiannus i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad troseddol a'i ganlyniadau mewn 24 o'r 27 achos perthnasol. Roedd gan y GATI ystod eang o weithgareddau/gwaith gwneud iawn a rhaglenni achrededig er mwyn atal plentyn neu unigolyn ifanc rhag aildroseddu.

(17) Yr oedd yr ymyriad a gyflwynwyd yn rhoi sylw i ymddygiad troseddol, ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac aros yn ddiogel mewn dros 85% o'r sampl achosion.

(18) Roedd camau wedi'u cymryd i sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn llwyr ddeall gofynion y gorchymyn neu'r cosbau a fyddai'n dilyn petai'n torri'r amodau, ym mhob un o'r achosion perthnasol.

(19) Rhoddwyd rhybuddion terfynol o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud ym mhob un o'r achosion a arolygwyd, ac ymyrrwyd yn 70% o'r achosion.

(20) Paratowyd adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y panel troseddau ieuenctid, gan gynnwys asesiad llawn o'r risgiau ac anghenion, gwneud iawn i'r dioddefwr a/neu'r gymuned ehangach ynghyd â rhaglen i atal aildroseddu ym mhob un o'r achosion perthnasol.

(21) Cyfarfu'r panel troseddwyr ifanc o fewn 20 diwrnod ar ôl gwneud y gorchymyn a dechreuodd contract y gorchymyn cyfeirio o fewn pum niwrnod i gyfarfod y panel yn 80% o'r achosion.

(22) Roedd staff y GATI yn monitro presenoldeb ar draws yr holl ymyriadau yn yr holl achosion a arolygwyd. Cymerwyd camau effeithiol i sicrhau cydymffurfio yn 87% o'r achosion ac yr oedd casgliadau ynghylch derbynioldeb/annerbynioldeb yn gyson yn 86% o'r sampl achosion. Cymerwyd camau tor-amod o fewn yr amserlen ofynnol mewn pedwar o'r pum achos a arolygwyd.

(23) Cymerwyd camau i fynd i'r afael ag anghenion llety mewn chwech o'r wyth achos perthnasol. Roedd gweithiwr y GATI yn monitro anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc ym mhob achos perthnasol.

(24) Yr oedd rheolwyr achosion wedi ysgogi, cefnogi ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol mewn dros 85% o'r achosion a arolygwyd.

Meysydd i'w gwella:

(1) Defnyddiwyd cysylltiad â'r darparwr addysg/ hyfforddiant yn sail ar gyfer asesiad cychwynnol Asset yn 50% o'r 30 o achosion yn unig.

(2) Nid oedd cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn cyrraedd y safon ofynnol mewn oddeutu hanner sampl yr achosion mewn sawl maes allweddol, megis: heb ei weld a'i lofnodi gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc neu'r rhiant/gofalwr; nid oedd yn cynnwys amcanion gyda'r nod o sicrhau canlyniadau, ac nid oedd yn cynnwys y dilyniant priodol.

(3) Gwelwyd nad oedd cydweithio rhwng y GATI a gwasanaethau plant a theuluoedd lleol ac eraill perthnasol, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth a darparu'r cynllun ymyrryd yn cwrdd â'r safon ofynnol yn oddeutu hanner yr achosion, gan na ddarparwyd hwy yn unol â'r cynllun ac nas cyflawnwyd o fewn amserlenni rhesymol.

(4) Ni chynhaliwyd yr apwyntiad cyntaf gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ar ôl dedfrydu yn unol ag amserlenni'r safonau cenedlaethol mewn saith o blith 21 achos. O'r rhain, cymerodd dau rhwng chwech a deng niwrnod yn fwy a chymerodd pump dros ddeng niwrnod.

(5) Cawsom fod gor-ddibyniaeth ar ymweliadau cartref gan staff GATI oherwydd natur annigonol y swyddfa a diffyg mannau mynediad lleol addas.

2.6 Maen prawf cyffredinol:

Mae iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu'n cael ei hyrwyddo drwy waith y TTI.

Gan fod yr un trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth iechyd yn berthnasol i'r plant a'r bobl ifanc hynny a oedd wedi troseddu ac i'r rheini yr oedd risg iddynt droseddu, mae llawer o'r materion a godwyd yn adran 2.2. yn berthnasol yma hefyd.

Cryfderau:

(1) Yr oedd y GATI'n defnyddio'u ffurflen asesu a sgrinio meddygol eu hunain i asesu iechyd corfforol, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r defnydd o alcohol.

(2) Roedd cwblhau'r Asset yn ddigonol gan ei fod yn asesu iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol, a chamddefnyddio sylweddau, yn gywir mewn dros 95% o'r sampl achosion.

(3) Cafwyd asesiadau arbenigol mewn 93% o achosion camddefnyddio sylweddau.

(4) Darparwyd ymyriadau ar gyfer y plentyn neu'r unigolyn ifanc gan weithiwr iechyd a/neu weithiwr camddefnyddio sylweddau, yng nghyswllt iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol mewn 73% o'r achosion, a chamddefnyddio sylweddau mewn 80% o achosion. Yr oedd yr ymyriad yn hyrwyddo iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ac yn annog yn erbyn camddefnyddio sylweddau mewn canran uchel iawn o'r achosion a arolygwyd.

(5) Roedd tystiolaeth bod y GATI wedi cefnogi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i gael gafael ar wasanaethau lleol mewn 80% o'r achosion.

(6) Roedd staff y GATI yn hyrwyddo iechyd a hunan-falchder cyffredinol drwy gynnwys plentyn neu unigolyn ifanc mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden, ac ymarferion taflen waith un-i-un.

Maes i'w wella:

(1) Yr oedd anghenion o ran iechyd corfforol wedi'u nodi mewn dau achos, ond yr oeddynt yn bresennol a heb eu nodi mewn pedwar achos arall hefyd. O'r rhain, dim ond un achos a gyfeiriwyd am asesiad arbenigol o fewn y GATI ar gyfer iechyd corfforol ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth y darparwyd ymyriad ar iechyd corfforol.

2.7 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu'n cael eu diogelu drwy waith y TTI i gyfrannu at hyrwyddo'u lles, a lle bo'n briodol, i'w hamddiffyn.

Cryfderau:

(1) Roedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi'n glir mewn 93% o'r sampl achosion a bu'r gwasanaethau plant yn gysylltiedig yn ystod goruchwylio yn y tri achos perthnasol.

(2) Bu cysylltiad rhwng gweithiwr y GATI a'r gwasanaethau plant mewn 93% o'r achosion perthnasol a arolygwyd.

(3) Yr oedd y GATI wedi cyfeirio at y gwasanaethau plant ym mhob un o'r wyth achos perthnasol.

(4) Er bod ansawdd cyffredinol y gwaith i helpu plant a phobl ifanc i 'gadw'n ddiogel' yn anghyson, roedd rheolwyr a staff yn llwyr ymwybodol o'r gwendidau hyn ac wrthi'n ddygn yn ceisio gwella'u hymarferion mewnol eu hunain a'r trefniadau cysylltu ag asiantaethau allweddol, megis gwasanaethau plant, iechyd ac addysg.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd y GATI yn ymgysylltu â'r gwasanaethau plant a theuluoedd lleol yn ystod y cyfnod asesu mewn dau (8%) o'r sampl achosion a chyn hynny mewn 23 (92%) o'r sampl achosion, a oedd yn golygu fod y wybodaeth a ddefnyddid wedi dyddio ac o bosibl yn anghywir.

(2) Roedd tystiolaeth i awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi bod yn risg iddynt hwy eu hunain mewn 14 achos (52%) a bod pobl eraill yn peri risg iddynt hwy mewn deg achos (37%). Fodd bynnag, nid oedd cynllun rheoli agored-i-niwed ond wedi'i gynhyrchu i ymateb i'r angen a welwyd mewn tri o'r 24 achos.

(3) Roedd y cydweithio rhwng y GATI a staff y gwasanaethau plant er mwyn mynd i'r afael ag ystyriaethau diogelu wedi'i ddarparu'n unol â'r cynllun neu ei gyflawni o fewn amserlenni rhesymol mewn chwech allan o saith o achosion.

(4) Ni ystyriwyd camau i gwrdd ag anghenion diogelu'r achos mewn pedwar allan o 11 o achosion.

2.8 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu'n cael eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Cryfderau:

(1) Lle dynodwyd bod gan blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn addysg statudol (prif-ffrwd), addysg a hyfforddiant 16+ a chyflogaeth 16+ anghenion CHA, roedd y plant/pobl ifanc hynny wedi'u cyfeirio'n briodol ar gyfer asesiad arbenigol yn y GATI mewn dros 80% o'r achosion a arolygwyd.

(2) Mewn achosion perthnasol lle gwelwyd angen am addysg a hyfforddiant 16+, cynigiwyd ymyriad priodol ym mhob achos.

(3) Lle y gwnaed cyfeiriad statudol gan y GATI ar gyfer gwasanaethau asesu arbenigol, fe'i darparwyd ar gyfer dau allan o dri achos addysg statudol (prif-ffrwd), tri allan o bedwar achos addysg a hyfforddiant 16+ ac ar gyfer yr un achos cyflogaeth 16+.

(4) Yr oedd gan y GATI gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol (preswyl a phrif ffrwd), colegau, darparwyr cwricwlwm amgen, a darpariaeth NEET, Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru. Yr oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a oedd yn darparu cyfleoedd dysgu drwy leoliadau addysgol a chyfleoedd hamdden. Hefyd, llwyddwyd i gael lleoliadau unigol a oedd yn galluogi plant a phobl ifanc i barhau â'u haddysg, canfod swyddi neu gwblhau'r rhaglen Feel Good i hyrwyddo hunan-barch a hyder.

(5) Lle'r oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i wahardd yn ffurfiol yn barhaol, neu'n absennol gyda chaniatâd o ysgol y brif ffrwd, roedd camau i ailintegreiddio'r disgybl i addysg amser llawn wedi'u cymryd gan y GATI mewn 71% o'r achosion perthnasol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Mewn achosion perthnasol lle gwelwyd angen am addysg statudol (prif ffrwd) a chyflogaeth 16+, cynigiwyd ymyriad priodol yn 67% o'r achosion a arolygwyd.

(2) Nid oedd staff GATI yn talu digon o sylw i sgiliau sillafu ac ysgrifennu sylfaenol y plentyn neu'r unigolyn ifanc er gwaethaf tystiolaeth yn ffeiliau'r achosion neu bryderon a fynegwyd gan rai rhieni/gofalwyr.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **digonol.**

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

2.9 Maen prawf cyffredinol:

Cefnogir rhieni/gofalwyr i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol eu plant.

Cryfderau:

(1) Yr oedd GATI Sir Gaerfyrddin yn cyflogi cydlynydd magu plant i gydlynu a datblygu ymyriadau magu plant. Yr oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu hasesu am addasrwydd, a defnyddid ystod o raglenni ac adnoddau i ddiwallu'r anghenion a aseswyd o ran magu plant.

(2) Cawsom hyd i dystiolaeth fod y GATI wedi datblygu cynllun llwyddiannus i fentora rhieni, a oedd yn hyfforddi ac annog rhieni/gofalwyr a oedd wedi cael budd yn y gorffennol o ymyriadau magu plant, i ddod yn fentoriaid gwirfoddol. Yr oedd chwech o fentoriaid achrededig yn weithredol a phump wrthi'n derbyn hyfforddiant.

(3) Yn ogystal â mentora un-i-un, yr oedd modd i wirfoddolwyr a rhieni/gofalwyr gwrdd mewn canolfan galw-i-mewn yn wythnosol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol ac i rannu profiadau gydag eraill mewn sefyllfa debyg iddyn nhw'u hunain. Yr oedd staff y GATI yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr o amrywiol faterion megis magu unigolyn yn ei arddegau, ymddygiad troseddol, ASBOs, cam-drin plant yn rhywiol, cyffuriau ac alcohol ayb.

(4) Yr oedd y tîm magu plant yn cynnig amrywiaeth o raglenni mewn gwahanol rannau o'r sir. Ymysg y rhain roedd: Ymdrin ag Ymddygiad Plant a Byw gyda Rhai yn eu Harddegau, a gyflwynwyd drwy raglenni gwaith grŵp. Ceid rhaglen un–i-un ar gyfer tadau hefyd. Yr oedd y cyrsiau wedi'u hachredu gan Rwydwaith y Coleg Agored ac roedd cyfranogwyr yn derbyn tystysgrifau a chredydau y gellid eu defnyddio i ennill mwy o gymwysterau.

(5) Yr oedd rhaglenni ar gael yn yr iaith Gymraeg hefyd, ac yn rhedeg fel arfer am wyth wythnos. Fel arfer, byddai dau grŵp craidd yn cael eu rhedeg yn gyfochrog, un ar gyfer rhieni/gofalwyr ac un ar gyfer plant a phobl ifanc.

(6) Yr oedd pob rhiant/gofalwr a gyfeiriwyd yn cael eu hasesu gan y cydlynydd rhieni ac yn cwblhau hunanasesiad. Rhoddid dewis iddynt o sesiynau un-i-un, rhiant fentor neu grŵp magu plant.

(7) Mewn 24 o achosion nodwyd y dylasai'r GATI fod yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhiant/gofalwyr, neu'n eu cynnwys mewn modd arall, ac mai dyna'r arfer ym mwyafrif yr achosion a arolygwyd. Roedd staff y GATI'n ffurfio cysylltiadau da gyda rhieni/gofalwyr ac yn eu cynorthwyo i bennu ffiniau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

(8) Gwnaed rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o ofynion ymyriadau yr ymgymerwyd

â hwy ac roeddynt wedi cael eu cynnwys yng ngoruchwyliaeth y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn 96% o'r sampl achosion.

(9) Roedd y GATI neu'r asiantaeth bartner yn hwyluso'r ffordd i rieni/gofalwyr ymwneud â goruchwyliaeth eu plentyn/person ifanc mewn 96% o'r achosion.

(10) Yr oedd sgiliau magu plant yn cael eu hasesu'n amserol ym mhob achos perthnasol ac roeddynt yn sensitif i anghenion amrywiol y rhieni/gofalwyr ym mhob achos. Yr oedd y GATI hefyd yn gwneud defnydd helaeth o gynadleddau grwpiau teulu.

(11) Yr oedd yr ymyriad o ran magu plant yn hyrwyddo magwraeth effeithiol mewn perthynas â gofal a rheolaeth y rhieni/gofalwyr yn y pum achos perthnasol, a lles eu plentyn neu unigolyn ifanc mewn pedwar achos.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y maen prawf hwn yw **rhagorol.**

Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

2.10 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn hyrwyddo ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r gwasanaethau a gânt, a defnyddir y wybodaeth hon i wella canlyniadau.

Cryfderau:

(1) Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod eu cyfnod cynefino a'u hannog i lenwi hunanasesiadau a ffurflenni adborth er mwyn i'r GATI asesu'u barn. Gwelsom dystiolaeth fod ymgynghori'n digwydd yn dilyn cyswllt â CISP, cynadleddau grwpiau teulu, cyfweliadau ymadael pan oedd ymyriad ar fin gorffen a thrwy'r drefn gwyno a chanmol.

(2) Yr oedd dadansoddiad o ffurflenni adborth yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd dyrannu ac adolygu wythnosol, a defnyddiwyd y wybodaeth i wella ansawdd darparu gwasanaethau.

(3) O'r deg achos atal a arolygwyd, gwahoddwyd y plentyn neu'r unigolyn ifanc i lenwi hunan-asesid *Over to You* (Drosodd i Chi) mewn deg achos a llenwyd wyth ohonynt.

(4) O'r dystiolaeth a gafwyd gan blant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr a lenwodd holiadur ar gyfer yr arolygiad, dywedodd dros 70% eu bod yn gwybod sut i gwyno am y GATI os oedd angen iddynt wneud.

(5) O'r 30 achos a arolygwyd lle cwblhawyd Asset cychwynnol, gwahoddwyd y plentyn neu'r unigolyn ifanc i lenwi ffurflen *Beth yw'ch barn chi?* mewn 21 (70%), o'r achosion, a llenwyd y 21 ohonynt.

Meysydd i'w gwella:

(1) O'r dystiolaeth a gafwyd gan ddioddefwyr, dywedodd tri allan o bump nad oeddynt yn gwybod sut i gwyno am y GATI os byddent angen gwneud hynny.

(2) Yr oedd barn rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu casglu i ryw raddau, ond yr oedd hyn yn anghyson, ac yr oedd y GATI, yn y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt cyn yr arolygiad, wedi nodi hwn fel maes i'w ddatblygu ymhellach.

2.11 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.

Cryfderau:

(1) Yn y deg achos ataliol a arolygwyd gennym, o ran ymyriadau ar gyfer ffactorau troseddegol blaenoriaeth gyntaf, ail flaenoriaeth a thrydedd flaenoriaeth, cafwyd cynnydd neu ddim newid mewn dros 90% o'r achosion. Bu peth newid i ran addysg statudol, perthnasoedd teuluol a phersonol, camddefnyddio sylweddau, iechyd emosiynol/iechyd meddwl a meddwl ac ymddygiad.

(2) Gwelsom dystiolaeth fod data ar waith gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei gronni, ei werthuso a'i archwilio gan reolwyr y GATI a'r Bwrdd Rheoli er mwyn goleuo a gwella ymarfer i'r dyfodol.

(3) Yn y 28 achos cymunedol a arolygwyd, arweiniodd ymyriadau ar gyfer ffactorau troseddegol blaenoriaeth gyntaf, ail flaenoriaeth a thrydedd flaenoriaeth at gynnydd neu ddim newid o gwbl mewn dros 75% o achosion y sampl. Bu newid cadarnhaol ac amlwg o ran perthnasoedd teuluol a phersonol, CHA ac iechyd emosiynol/iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

(4) O'r plant a'r bobl ifanc a lenwodd ein holiadur, dywedodd chwech allan o naw fod pethau wedi gwella iddynt yn sgil eu gwaith gyda'r GATI a'u bod yn llai tebygol o droseddu. Cadarnhaodd wyth allan o naw o rieni/gofalwyr y bu gwelliannau.

(5) Roedd newid cadarnhaol ac amlwg wedi bod yn agweddau ac yn ymddygiad chwech allan o wyth o'r achosion atal a arolygwyd.

(6) Roedd nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi dod i sylw'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yn 2007/2008 wedi gostwng –23.0% o'i gymharu â –15.0% yn y TTI Teulu, –14.4% yng Nghymru, -11.0% ym Mhrydain a tharged y BCI yn ystod y ddwy flynedd, sef -5%. Roedd hyn yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.

(7) Gwelwyd gostyngiad o –40.7% yn y GATI o ran aildroseddu ym mandiau'r

cosbau lefel gyntaf o'u cymharu â –7.0% yng Nghymru a -10.2% ym mand y cosbau cymunedol o'i gymharu â –12.2% yng Nghymru. Targed y BCI oedd -5% ar gyfer y ddwy lefel.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yn y 28 achos cymunedol a arolygwyd, o'r 23 achos perthnasol, ni fu gostyngiad mewn ffactorau'n gysylltiedig â diogelu yn 17 (74%) o'r achosion hynny.

(2) Lle'r oedd Asset wedi'i ail-sgorio, nid oedd 15 allan o 20 achos wedi dangos gwelliant.

(3) Nodwyd naw achos lle'r oedd angen gwella o ran llety'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ac fe welwyd gwelliant mewn pump (56%) o'r achosion.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **digonol.**

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC A DDEDFRYDWYD I'W CADW DAN GLO

3.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu bobl eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod cadw dan glo'r ddedfryd i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Cryfderau:

(1) O blith y deg achos Cadw Tan Glo a Hyfforddi a arolygwyd gennym, cwblhawyd yr asesiadau Asset cychwynnol yn ôl amserlenni'r safon genedlaethol, ac roeddent yn cynnwys cyfweliad gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn wyth achos.

(2) Ystyriwyd bod yr Asset cychwynnol o ansawdd digonol mewn wyth achos a nodwyd ffactorau cadarnhaol, megis ffactorau cefnogol a pro-gymdeithasol mewn naw allan o'r deg achos a arolygwyd.

(3) Lle'r oedd rhieni/gofalwyr yn rhan o'r asesiad roedd yr anghenion penodol a nodwyd gan y rhiant/gofalwr i'w gweld mewn pump o'r chwe achos perthnasol.

(4) Aethpwyd ati'n benodol i asesu ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth/ffactorau a allai fod yn wahaniaethol/anfanteisiol, ac anghenion unigol eraill mewn 90% o achosion a lluniwyd cynlluniau i leihau effaith hynny mewn 86% o achos.

(5) Ni chyflwynwyd safbwyntiau'r gwasanaeth addysgu gartref, iechyd na gwasanaeth plant yr awdurdodau lleol i gyfarfod cychwynnol y cynllun hyfforddi mewn 75% o'r achosion.

(6) Roedd cyfarfodydd y cynlluniau hyfforddi cychwynnol yn cynnwys mwyafrif y rheolwyr achos, ac fe'u cwblhawyd yn unol â'r amserlen. Roeddent yn nodi'n glir pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu'r ymyriadau ac fe'u gwelwyd a'u llofnodi gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'r rhiant/gofalwr cysylltiedig yn y rhan fwyaf o'r sampl achosion.

(7) Cawsom fod gwaith ar y cyd rhwng y GATI ac eraill wedi'i gyfathrebu'n effeithiol gyda golwg ar iechyd corfforol, iechyd meddwl/emosiynol, camddefnyddio sylweddau ac alcohol a CHA mewn dros 90% o achosion.

(8) Lle bo hynny'n berthnasol, yr oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd yn rhoi sylw i'r tebygolrwydd o aildroseddu yn 70% o achosion ac aros yn ddiogel yn 80% o'r achosion a arolygwyd.

(9) Roedd amlder y cyswllt yn ystod cyfnod cadw dan glo'r ddedfryd yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol mewn 80% o'r achosion. Roedd staff y GATI yn annog rhieni/gofalwyr i ddod i'r cyfarfod cynllunio hyfforddiant

cychwynnol a'r adolygiadau, ac yn enwedig i'r cyfarfod adolygu terfynol, ym mhob un o'r achosion perthnasol a arolygwyd.

Meysydd i'w gwella:

(1) O sampl achosion o ddeg, nid oedd Asset wedi'i oleuo'n llawn drwy wybodaeth gan y gwasanaethau plant mewn saith achos, ac addysg a hyfforddiant mewn chwe achos.

(2) Nid anfonwyd asesiadau perthnasol eraill na gwybodaeth megis cynlluniau iechyd ac addysg i'r sefydliad diogel/cadw dan glo o fewn 24 awr i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc gyrraedd mewn 90% o'r achosion.

(3) Gwahoddwyd y plentyn neu'r person ifanc i lenwi ffurflen *Beth yw'ch barn chi?* neu ffurflen gydnabyddiaeth arall, mewn pump o'r deg achos.

(4) Lle bo hynny'n berthnasol, yr oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd yn rhoi sylw i'r RN i eraill mewn 33% o achosion, ymwybyddiaeth o ddioddefwyr mewn 44% ac ail-integreiddio i'r gymuned mewn 67% o'r sampl achosion.

3.2 Maen prawf cyffredinol:

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu drwy waith y TTI yn ystod cyfnod cadw dan glo'r ddedfryd i gyfrannu at hyrwyddo'u lles, a lle bo'n briodol, i'w hamddiffyn.

Cryfderau:

(1) Darparwyd Asset craidd cyfredol yn cwmpasu asesiad o ran bregusrwydd ac anghenion iechyd y gwyddys amdanynt i'r sefydliad diogel/cadw dan glo o fewn awr i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc gyrraedd mewn 90% o'r achosion.

(2) Aseswyd ffactorau risg penodol a'u cyfleu, ar lafar ac yn ysgrifenedig, wrth y sefydliad diogel ar unwaith drwy e-bost diogel yn dilyn dedfrydu mewn 88% o'r achosion perthnasol.

(3) Nid anfonwyd asesiadau perthnasol eraill megis ACD, euogfarnau blaenorol nac adroddiadau ôl-llys i'r sefydliad diogel/cadw dan glo o fewn 24 awr i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc gyrraedd mewn 80% o'r achosion.

(4) Yr oedd asesiadau'n nodi'n gywir y dangosyddion perthnasol o ran niwed difrifol mewn saith achos, a chwblhawyd ffurflen Risg o Niwed Difrifol i Eraill mewn pump o'r achosion perthnasol. Cydnabuwyd yr angen i gynllunio i roi sylw i achosion yr aseswyd fod ganddynt faterion lefel isel o ran Risg o Niwed Difrifol i Eraill, a gweithredwyd ar hynny yn y ddau achos perthnasol a arolygwyd.

(5) Roedd rheolwyr yn ymwneud yn effeithiol â'r un achos lle yr oedd RND wedi'i ganfod.

(6) Yr oedd statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi'n glir ym mhob achos.

Meysydd i'w gwella:

(1) Lle nad oedd ffurflen RND i eraill wedi'i chwblhau mewn dau achos, dim ond un achos a ddarparodd reswm derbyniol ar Asset.

(2) Nodwyd nad oedd y dosbarthiad RND yn ymddangos yn gywir mewn dau achos ac nid oedd yr Asset RND wedi'i gwblhau i safon ddigonol yn y pum achos perthnasol.

(3) Nid ystyriwyd fod y cynllun rheoli risg Asset yn gynhwysfawr mewn dau achos ac nis cwblhawyd mewn un achos.

(4) Nid oedd yr asesiad RND wedi ymwneud yn drwyadl ag ystyriaethau ynglŷn â dioddefwyr mewn pedwar o bum achos.

(5) Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod plant a phobl ifanc yn risg iddynt hwy eu hunain neu'n wynebu risg o du pobl eraill, neu fod risg o'r fath wedi bodoli. Nid oedd cynlluniau gweithredu agored-i-niwed wedi'u cynhyrchu i liniaru'r angen a welwyd mewn pedwar o'r chwech achos perthnasol.

(6) Roedd y GATI wedi gwirio statws gofal cymdeithasol y plentyn neu'r unigolyn ifanc gyda'r gwasanaethau plant mewn pum achos ar gyfer y gorchymyn cyfredol ac yn flaenorol mewn pum achos.

(7) Nid oedd tystiolaeth i ddangos yr ymgynghorwyd â'r gwasanaethau plant nac y buont yn ymwneud gwaith goruchwylio na chwaith â gwaith diogelu. Roedd cysylltiad rhwng gweithiwr y GATI a'r gwasanaethau plant wedi digwydd mewn dim ond un o ddau achos perthnasol.

3.3 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI (neu bobl eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod cymunedol y ddedfryd, i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Roedd RhGAD (ISSP) ar gael i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol dedfrydau cadw dan glo. Yr oedd y deg achos a arolygwyd yn cael eu goruchwylio yn y gymuned adeg yr arolygiad.

Cryfderau:

(1) Plant a phobl ifanc yn derbyn hyfforddiant cynefino ac apwyntiadau amserol a chynhwysfawr ym mhob achos.

(2) Roedd cynlluniau ymyrryd wedi'u hadolygu ac yr Asset wedi goleuo'r adolygiad yn unol â'r safonau cenedlaethol mewn wyth o'r naw achos a arolygwyd.

(3) Roedd ymweliadau pwrpasol â'r cartref wedi'u cynnal a'u hailadrodd yn ôl y galw.

(4) Darparwyd gwasanaethau iechyd arbenigol yn unol â safonau cenedlaethol

mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ym mhob un o'r achosion na samplwyd.

(5) Darparwyd gwasanaethau CHA arbenigol yn unol â safonau cenedlaethol mewn perthynas ag addysg statudol (prif ffrwd) ac addysg a hyfforddiant 16+ ym mhob achos perthnasol.

(6) Roedd gwaith yn y gymuned yn adeiladu'n ddigonol ar weithgarwch a gychwynnwyd yn y carchar, neu'n rhoi sylw i faterion mewn 70% o achosion.

(7) Roedd ymyriadau adeiladol yn herio'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn llwyddiannus i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad troseddol a'i ganlyniadau mewn 80% o'r achosion, ac roeddynt yn sensitif i faterion amrywiaeth yn 90% o'r achosion a arolygwyd. Yr oedd staff y GATI wedi derbyn hyfforddiant ar ystod o adnoddau ac yn eu defnyddio, megis y rhaglen ymddygiad gwybyddol STAR (*Stop, Think, Act, Reflect*), rhaglen 'Never Going Back' y BCI ac ystod o sesiynau un–i-un gan ddefnyddio taflenni gwaith.

(8) Yr oedd amlder yr apwyntiadau yn y cyfnod cymunedol yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol, yn ymateb i ystyriaethau ynglŷn â'r RN a diogelu, ac yn gymorth i gyflawni amcanion y cynllun ymyrryd, mewn dros 80% o'r sampl achosion.

(9) Roedd gweithiwr y GATI yn monitro presenoldeb ar draws yr holl ymyriadau yn yr holl achosion yn y sampl.

(10) Cymerwyd camau effeithiol i sicrhau cydymffurfio ac yr oedd casgliadau ynghylch derbynioldeb ac annerbynioldeb yn gyson a phriodol mewn dros 85% o'r achosion.

(11) Cychwynnwyd ar achosion tor-amod o fewn yr amserlen ofynnol ym mhob achos a'u datrys o fewn yr amserlen ofynnol mewn dau o'r tri achos perthnasol.

(12) Roedd y GATI yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni/gofalwyr, yn dangos ymrwymiad, ac yn ysgogi ac c atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol yn eu gwaith gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn dros 90% o achosion.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd RN i eraill wedi'i adolygu o fewn deg diwrnod i blentyn/unigolyn ifanc gael ei ryddhau mewn pump o'r deg achos perthnasol.

(2) Nid oedd RN i eraill wedi'i adolygu o fewn tri mis mewn tri allan o bedwar achos perthnasol, a dim ond un o ddau achos a adolygwyd yn dilyn digwyddiad sylweddol.

(3) Er bod ymyriadau adeiladol yn herio'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn llwyddiannus i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad troseddol, ni fu i ni ganfod unrhyw dystiolaeth o werthuso ffurfiol ar un ai'r rhaglenni unigol na'r rhaglenni gwaith grŵp.

(4) Nid oedd llythrennedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i ailasesu yn unol â'r safon genedlaethol o ddeg diwrnod mewn naw allan o ddeg o achosion.

3.4 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo.

Cryfderau:

(1) Ni fu cynnydd mewn ymyriadau cyfyngol ac yn ystod y cyfnod cymunedol nid oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gael yn euog o drosedd mewn wyth (80%) o ddeg achos a arolygwyd.

(2) Rheolwyd diogelu'n effeithiol yn y pedwar achos perthnasol ac yr oedd risgiau wedi'u gostwng mewn dau achos.

(3) Roedd manteision amlwg i'r gymuned yn sgil lleihau difrifoldeb y troseddu, amlder y troseddu a'r bygythiad i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr.

(4) Cafwyd cynnydd sylweddol, peth cynnydd neu ddim newid mewn 90% o'r ffactorau troseddegol blaenoriaeth gyntaf, ail a thrydydd.

(5) Roedd yr adnoddau a ddyrannwyd yn gyson â'r RN a berai'r plentyn neu'r person ifanc i bobl eraill, i ba raddau yr oedd yn debygol o aildroseddu, ac ystyriaethau ynglŷn â diogelu mewn 90% o'r achosion a arolygwyd ar gyfartaledd, ac yn gyson â statws PPO y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn y pedwar achos perthnasol.

(6) Rhoddwyd sylw i faterion ail-integreiddio hirdymor i'r gymuned mewn wyth (80) o'r sampl achosion ac roedd yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yr oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y gorchymyn mewn chwe achos ac ni fu unrhyw newid mewn agweddau, ymddygiad nac ymwybyddiaeth o ddioddefwyr mewn chwech allan o ddeg o achosion.

(2) Yr oedd Asset wedi'i ail-sgorio yn y sampl o ddeg o achosion, ond nid oedd yn dangos unrhyw welliant mewn pump (50%) o'r achosion a arolygwyd.

(3) Cawsom nad oedd darpariaeth llety wedi gwella mewn tri o bum achos perthnasol a arolygwyd.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **digonol.**

4. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

4.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae pobl sydd wedi dioddef yn sgil troseddau plant a phobl ifanc yn teimlo'u bod wedi cael cymorth drwy gyfrwng ymyriadau'r TTI o ran eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac yn gallu cau'r bennod.

Cryfderau:

(1) Yr oedd y GATI'n cyflogi dau gyfryngydd rhwng dioddefwyr a throseddwyr, wedi'u hyfforddi mewn cynadledda adferol, ar gyfer gweithio gyda dioddefwyr a oedd wedi dioddef ystod o droseddau a oedd yn cynnwys troseddau rhywiol a chasineb hiliol. Yr oeddynt hefyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac yn gyfrifol am ddarparu ymyriadau o ran ymwybyddiaeth o ddioddefwyr. Yr oedd staff ychwanegol wedi'u hyfforddi fel hwyluswyr cynadleddau adferol ac roedd cynadleddau adferol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr holl staff a oedd yn gweithio gyda dioddefwyr wedi'u hyfforddi'n briodol.

(2) Roedd gan y GATI drefniadau cadarn yn eu lle i gael gafael ar fanylion dioddefwyr. Yr oedd plismon y GATI yn cael gwybodaeth am ddioddefwyr oddi ar ffurflenni cyfeirio'r heddlu, ac roedd yn gallu mynd at holl systemau cyfrifiadurol yr heddlu er mwyn gwneud archwiliadau priodol i geisio gwybodaeth a/neu i wirio gwybodaeth. Yr oedd cyfryngwyr dioddefwyr-troseddwyr neu blismon y GATI (yng nghyswllt rhai a oedd wedi cael cerydd neu rybudd terfynol â chefnogaeth) yn cysylltu ag unigolion y gellid canfod pwy oeddynt, a oedd wedi dioddef troseddu gan ieuenctid. Roedd yr heddlu wedi trosglwyddo manylion dioddefwyr i'r GATI yn unol â'r safonau cenedlaethol mewn 14 achos perthnasol, neu mewn 74% o'r sampl achosion.

(3) Byddid yn cysylltu gyntaf â dioddefwyr dros y ffôn, gan ddilyn hynny â llythyr a thaflenni'n egluro'r broses a'r gwasanaethau ar gael. Gwnaed ymweliadau â chartrefi pe derbynnid cais. Ymdrinnid â'r cyfathrebu mewn modd sensitif gan ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigolion.

(4) Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i ddiogelwch dioddefwyr yn enwedig pan ystyrid eu bod yn arbennig o fregus. Lle y bu pryderon uniongyrchol/posibl ynghylch diogelwch dioddefwr, rhoddwyd y flaenoriaeth briodol iddynt mewn 74% o'r sampl achosion.

(5) Roedd y GATI yn cynnig ymyriadau adferol ym mhob rhan o'u gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys llythyrau o ymddiheuriad, cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, mynychu panelau troseddwyr ifanc, amrywiol weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned yn cynnwys gofal cymdeithasol i'r henoed a/neu'r methedig, prosiectau

amgylcheddol megis cefnogi mudiadau cymunedol a phrosiectau lles anifeiliaid. Mewn achosion lle yr oedd cyfarfodydd uniongyrchol wyneb-yn-wyneb yn cael eu trefnu, yr oedd y cyfryngwyr rhwng dioddefwyr a throseddwyr yn ymgysylltu â'r ddau barti i hwyluso'r cyfarfod ac i sicrhau diogelwch y ddau barti.

(6) Yr oedd yr enghreifftiau o leoliadau unigol a welwyd yr un fath â'r rhai a ddarparwyd ar gyfer grwpiau gan fwyaf, ond fod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gwneud y gweithgaredd ar ben ei hun a than oruchwyliaeth. Cawsom dystiolaeth o ymarfer da o ran y GATI a'r Gwasanaeth Ieuenctid drwy ddefnyddio gweithdrefnau ac arferion cyfiawnder adferol mewn tair ysgol yn yr ardal a hefyd, yn gyffredinol. O gysylltu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc â rhaglenni a oedd yn gwella'u gwybodaeth a'u sgiliau.

(7) Roedd taflen wybodaeth ddwyieithog yn cael ei darparu i ddioddefwyr, a gwasanaethau'n cael eu cynnig iddynt yn eu dewis iaith, gan fod y GCI yn cyflogi nifer o staff rhugl eu Cymraeg.

(8) Roedd y cyfryngwyr rhwng dioddefwyr a throseddwyr wedi bod yn rhagweithiol o ran annog dioddefwyr i gymryd rhan mewn prosesau cyfiawnder adferol ac wedi gweithio'n glos gyda phlismon, swyddogion gwneud iawn a gweithwyr cefnogol y GATI i'r diben hwn. Roedd y GATI wedi gwahodd dioddefwr i gymryd rhan mewn proses cyfiawnder adferol mewn 13 o'r 19 o achosion perthnasol.

(9) Bu i ni ganfod hefyd dystiolaeth fod y GATI wedi ceisio cynnwys y dioddefwr mewn proses cyfiawnder adferol yn yr holl achosion (naw) lle yr oedd y dioddefwyr wedi mynegi diddordeb i ymgysylltu ac yr oedd pedwar wedi cymryd rhan. Yr oedd tri wedi ymwneud â chyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr a dau wedi cymryd rhan mewn cyfryngu ac wedi mynychu'r panel troseddwyr ifanc. Roedd cefnogaeth briodol wedi'i darparu i ddioddefwyr yn ystod ac ar ôl y panel.

(10) Roedd aelodau'r panel troseddwyr ifanc wedi cael hyfforddiant cychwynnol ynglŷn â dioddefwyr a chyfiawnder adferol ac wedi'u cynnwys mewn hyfforddiant parhaus a oedd wedi'i gynllunio. Yr oedd y rhai a gyfwelwyd yn siarad yn gadarnhaol iawn am ansawdd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gynigiwyd iddynt gan y GATI.

(11) Dechreuodd y gwneud iawn cymunedol o fewn tri mis cyntaf y gorchymyn mewn 94% (15) o'r sampl achosion.

(12) Gwahoddwyd pob dioddefwr i ddarparu adborth a derbyniasant ffurflenni i'r diben hwn. Trafodwyd adborth gan ddioddefwyr fel eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd dyrannu ac adolygu wythnosol, a defnyddiwyd yr adborth i wella gwasanaethau.

(13) Cyfwelwyd â phump o ddioddefwyr a/neu roeddent wedi llenwi holiadur ar gyfer yr arolygiad ac roedd eu hagwedd yn gadarnhaol mewn pedwar o'r pum achos, gan ddweud bod eu cysylltiad â'r GATI wedi bod yn brydlon ac o gymorth.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd protocolau drafft yn cael eu trafod gyda Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol er mwyn ffurfioli'r trefniadau rhwng y ddau wasanaeth ar gyfer gwaith statudol gyda dioddefwyr.

(2) O blith sampl o 39 o achosion, bu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ymwneud â gwaith gwneud iawn i'r dioddefwr mewn chwech, gwneud iawn i'r gymuned mewn 11 achos, a'r ddau mewn pum achos. Nid oedd gwaith gwneud iawn wedi digwydd mewn 17 o achosion (44%).

(3) Ni ystyriwyd fod yr asesiad o anghenion y dioddefwr wedi bod yn amserol nac o ansawdd digonol mewn pedwar allan o'r naw achos perthnasol a adolygwyd.

(4) Yn y chwe achos lle nad oedd y dioddefwr wedi'i wahodd i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder adferol, ni chofnodwyd y penderfyniad mewn tri o'r achosion hynny.

(5) Er bod nifer o weithgareddau gwneud iawn, cawsom fod gwaith unigol a gwaith grŵp yn debyg iawn i'w gilydd a gan amlaf yn cynnwys gwella cartref unigolyn, adeilad cymunedol neu'r amgylchedd, a'i fod wedi'i leoli yn ardaloedd mwy trefol y sir. Roedd lleoliadau gyda Lles Anifeiliaid a gofal cymunedol yn eithriadau, gan gynnig profiadau mwy personol a sensitif. Teimlai'r arolygwyr y gallai'r gweithgareddau a oedd ar gael o ran gwneud iawn gael eu datblygu ymhellach i gynnig ystod ehangach o brofiadau'n gydnaws â gwneud iawn a diddordebau ac anghenion datblygol plentyn neu unigolyn ifanc.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y maen prawf hwn yw **da.**

5. RHEOLAETH AC ARWEINIAD

Arweiniad a chynllunio

5.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r Bwrdd Rheoli'n gweithio'n frwd gydag eraill, gan gynnwys rheolwr y TTI, mewn modd integredig er mwyn sicrhau, gymaint ag y bo modd, y tebygolrwydd fod y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn gwella.

Yn dilyn ad-drefnu mewnol ar wasanaethau Cyngor Sir Gaerfyrddin yn 2007, trosglwyddodd y GATI o Ofal Cymdeithasol a Thai i'r Gyfadran Safonau ac Ansawdd law yn llaw â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion, Dysgu Cymunedol a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Daeth cyfrifoldeb rheolaeth linell dros y GATI yn gyfrifoldeb y Pennaeth Safonau ac Ansawdd ar ran y Bwrdd Rheoli. Dechreuodd Rheolwr y GATI ar ei swydd ym mis Ionawr 2008, yr ail i'w benodi ers dechrau'r gwasanaeth yn y flwyddyn 2000.

I gyd-ddigwydd â'r ad-drefnu, newidiodd y Bwrdd Rheoli enw'r gwasanaeth o TTI i GATI er mwyn adlewyrchu'n well y weledigaeth ehangach a mwy cynhwysol sydd ganddo ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cryfderau:

(1) Yr oedd y Bwrdd Rheoli wedi'i sefydlu'n dda ar lefel strategol a chanddo aelodaeth briodol o uwch swyddogion yn cynrychioli asiantaethau partner statudol. Yr oedd rheolwyr o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, CAMHS, Gwasanaeth Llysoedd EM ac Adran Dai'r Awdurdod Lleol. Cadeiriwyd y Bwrdd Rheoli gan Brif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Sir Gaerfyrddin am oddeutu dair blynedd.

(2) Cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad ym mis Rhagfyr 2007 gan nodi sawl maes i'w gwella a oedd yn cynnwys presenoldeb, craffu ar ddata perfformiad, llety i staff, diweddaru Cytundebau Lefel Gwasanaeth a phrotocolau, a'r angen am well dealltwriaeth o faterion gweithredol. Cytunwyd ar gynllun gweithredu a'i roi ar waith. Yr oedd un elfen o'r cynllun yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Rheoli yn cysgodi staff GAT yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

(3) Drwy ei aelodaeth a'i weithgareddau, yr oedd y Bwrdd Rheoli'n sicrhau fod trefniadau yn eu lle i hyrwyddo integreiddio'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 â'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Diogelwch Cymunedol a Chynllun Plant a Phobl Ifanc Cymru. Bu Rheolwr y GATI a staff eraill yn rhan weithredol o nifer o gyfarfodydd allanol yn cynnwys gwarchod y cyhoedd ac amddiffyn plant.

(4) Roedd gan y GATI drefniadau cadarn yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Rheolwr y GATI, a Phennaeth Safonau ac Ansawdd (yn gweithredu yn rôl rheolwr llinell i Reolwr y GATI), i gynllunio cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ac i fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Yr oedd cyfarfodydd yn

mabwysiadu dull gweithredu ar sail themâu a gwahoddwyd staff i fod yn bresennol i roi cyflwyniadau. Cynhaliwyd cyfarfodydd bob deufis ac yr oedd presenoldeb da gan bartneriaid statudol ac, yn gyffredinol, gan bartneriaid eraill.

(5) Er mwyn adlewyrchu anghenion amrywiol yr ardal, gweithredodd y Bwrdd Rheoli'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Sir. Yr oedd taflenni'r gwasanaeth yn ddwyieithog a'r GATI'n anelu at ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg pan oedd eu hangen.

(6) Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi'i gwblhau mewn pryd a'i gymeradwyo gan y BCI. Gwelsom dystiolaeth fod y cynllun wedi ystyried cysylltiadau/y berthynas â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, â Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan ac â'r Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant.

(7) Roedd gwybodaeth amserol am berfformiad yn cael ei gasglu ar gyfer y Bwrdd Rheoli'r GATI a'r BCI bob chwarter. Roedd y wybodaeth hon yn destun craffu gan y Bwrdd ac yn cael ei defnyddio gyda gwybodaeth ehangach am y gwasanaeth, i oleuo'r Bwrdd Rheoli a phrosesau cynllunio a chomisiynu lleol, neu i wella'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a gyfeirid at y GATI.

(8) Lle nad oedd targedau'n cael eu cyrraedd, roedd cynlluniau clir ar gyfer gwella'r perfformiad, a'r cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Yr oedd hefyd yn arwyddocaol fod ffocws y targedau'n symud oddi wrth niferoedd at ansawdd.

(9) Yr oedd gan y GATI drefniadau rheoli mewnol cadarn yn eu lle yn cynnwys yr uwch dîm rheoli adrannol dan arweiniad y Pennaeth Safonau ac Ansawdd. Yr oedd nifer o fecanweithiau yn eu lle i hwyluso cyfathrebu effeithiol drwy gyfarfodydd, cylchredeg cofnodion, goruchwylio unigol a gwerthuso a systemau electronig.

(10) Yr oedd staff y GATI yn adrodd fod morâl yn uchel yn ogystal â'r bodlonrwydd ar gefnogaeth ac arweiniad rheolwyr.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yr oedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn cofnodi fod 12 aelod o staff yn siarad Cymraeg, gan gynnwys pedwar o wirfoddolwyr, yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth allan o gyfanswm o 97 aelod o staff a gwirfoddolwyr. Nid oedd unrhyw staff gweinyddol a oedd yn siarad Cymraeg ac nid oedd y cynllun cyfiawnder ieuenctid yn cofnodi gallu ieithyddol y Bwrdd Rheoli. Yr oedd gwasanaethau'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cyfyngid arnynt gan y nifer o staff a oedd ar gael.

(2) Ar gyfartaledd, roedd pedwar aelod o'r Bwrdd Rheoli'n ymddiheuro am fethu â dod i gyfarfodydd. Er bod y rhai a oedd yn absennol yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod, nid oedd y Gwasanaethau Tai na'r Uwch Gynghorydd Cyfreithiol wedi bod yn bresennol yn y pedwar cyfarfod diwethaf a adolygwyd.

Partneriaeth ac adnoddau

6. *Maen prawf cyffredinol:*

Mae sefydliadau partner a'r TTI yn cydweithio'n effeithiol i amddiffyn y cyhoedd, i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cryfderau:

(1) Roedd gan y GATI staff priodol ac fe gâi ei ariannu drwy gyfrwng ei asiantaethau partner, y BCI a'r Gronfa Cymunedau Mwy Diogel. Cawsom nad oedd ond bwlch bychan iawn o ran gwasanaeth mewn perthynas â dau (5%) o achosion a oedd yn effeithio ar oruchwylio effeithiol. Dyma farn y staff arolygu ar y gwasanaethau canlynol:

- gwasanaeth cyffuriau ac alcohol – 100% digonol (22 achos)
- addysg a hyfforddiant – 95% digonol (19 achos)
- cyflogaeth – 100% digonol (chwe achos)
- seicoleg/seiciatreg – 100% digonol neu ragorol (pum achos)
- iechyd a hamdden – 84% digonol neu ragorol (pum achos)

(2) Yr oedd Aelodau'r Bwrdd y bu i ni eu cyfweld yn gadarnhaol iawn ac yn ymroddedig i waith y GATI ac yn credu fod y gynrychiolaeth yn briodol ac yn gysylltiedig â chynlluniau strategol allweddol eraill. Yr oedd gan y GATI berthynas waith glos â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cynllun plant a Phobl Ifanc Cymru, MAPPA, y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant a'r Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau.

(3) Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2008, nododd y Bwrdd Rheoli'r angen i adolygu a diweddaru'r 32 Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r protocolau a oedd yn sail i waith y GATI. Yn ystod yr arolygiad, cawsom fod y gwaith hwn wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac , yn benodol, y protocolau gyda gwasanaethau plant ac addysg, a oedd wedi dyddio o ganlyniad i ad-drefnu mewnol yr awdurdod lleol.

(4) Cadarnhaodd y staff addysg a gyfwelwyd gennym fod ganddynt berthynas waith glos â'r GATI ar lefel weithredol a strategol. Yr oedd y Pennaeth Safonau ac Ansawdd wedi datblygu gweledigaeth ar y cyd gyda'r tîm yn ogystal â mynediad at adnoddau. Yr oedd y GATI'n chwarae rhan lawn yng Nghynllun Busnes yr Adran a threfniadau TAPPAS a luniwyd i integreiddio gwaith rheolwyr canol. Yr oedd hefyd yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'i weithwyr maes i ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu.

(5) Hefyd cadarnhaodd staff y gwasanaethau plant fod perthynas adeiladol yn datblygu rhwng y ddau wasanaeth o ran atal ac amddiffyn plant yn benodol, ac yr oedd y rhain wedi'i hatgyfnerthu'n ddiweddar gan brotocol newydd ar y cyd gyda'r GATI.

(6) Yr oedd staff y GIG a gyfwelwyd yn frwdfrydig ynghylch eu gwaith gyda'r GATI. Yn benodol, cyfeiriasant at y ffaith y gallai Nyrs Seiciatrig Gymunedol y GATI ymateb o fewn pum niwrnod gwaith ar gyfer cyfeiriadau aciwt a phymtheg diwrnod gwaith ar gyfer achosion heb fod yn aciwt. Yr oedd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol hefyd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff a llwybr uniongyrchol at CAMHS heb unrhyw bwynt terfyn pan gyrhaeddai'r unigolyn ifanc 18 oed. Yr oeddynt hefyd yn pwysleisio'r cynllun newydd gan y Bill a oedd wedi sefydlu tîm iechyd ieuenctid rhyngasiantaeth [Iechyd Da], yn rhannol o ganlyniad i dystiolaeth o angen a ganfuwyd gan y GATI. Yr oedd y tîm yn cynnwys nyrs gymwysedig, gweithiwr iechyd sylfaenol, gweithiwr iechyd rhywiol ac yr oedd ei wasanaethau ar gael i blant a phobl ifanc a oedd dan oruchwyliaeth y GATI a'r rhai a gyfeiriwyd at CISP.

(7) Yr oedd y GATI, gyda chefnogaeth rheolwyr iechyd, wedi datblygu tîm camddefnyddio sylweddau a oedd wedi dod yn weithredol o Ebrill 200. Roedd y tîm yn cynnwys staff profiadol a oedd wedi'u hyfforddi a chyda systemau cadarn yn eu lle ar gyfer cyfeirio, asesu ac ymyrryd.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yr oedd nifer o swyddi staff a oedd yn destun cyllid tymor byr oherwydd llwyddiant y Bwrdd Rheoli i sicrhau a defnyddio amrywiol ffrydiau cyllido, ond yr oedd y rhain bellach angen atebion hirdymor er mwyn cynaladwyedd y gwasanaethau.

(2) Nid oedd yn ymddangos fod proses gynefino ffurfiol ar gyfer aelodau newydd na rhaglen ddatblygu ar gyfer aelodau'r Bwrdd Rheoli, a dywedwyd wrthym gan rai aelodau o'r Bwrdd yr ystyrid y byddai hynny o gymorth.

(3) Nid oedd yn ymddangos fod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn cysylltu â Chynllun Ardal Prawf Dyfed Powys, nad oedd chwaith yn ymddangos ar Fap Llywodraethu GATI Sir Gaerfyrddin.

(4) Yr oedd y GATI'n dioddef oherwydd bod ganddynt swyddfeydd annigonol a mynediad annigonol i adeiladau addas ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad, cawsom fod gorddibyniaeth ar ymweliadau cartref yng ngwaith y GATI gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaeth ganddynt. Yr oedd hyn wedi bod yn broblem barhaus am flynyddoedd lawer ac wedi'i ddatrys yn rhannol drwy agor swyddfa ychwanegol yn nhref Caerfyrddin ym mis Ebrill 2007. Yr oedd y Bwrdd Rheoli wedi cydnabod y broblem hon ac, yn benodol, y cyfleusterau cwbwl annigonol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff yn swyddfa GATI Llanelli, ond adeg yr arolygiad, ni fu modd gwneud unrhyw gynnydd sylweddol.

(5) Yr oedd Grŵp Llety Amlasiantaeth wedi'i sefydlu gan y GATI, yn cynnwys darparwyr tai lleol a staff y GATI. Yr oedd hyn wedi gwella gwybodaeth am yr adnodau a oedd ar gael a mynediad at lety, ond canfu'r arolygwyr fod diffyg lleoliadau addas â chefnogaeth o hyd ar gyfer rhai plant a phobl ifanc heriol mewn argyfwng.

Goruchwylio staff, eu datblygu a'u hyfforddi

5.3 Maen prawf cyffredinol:

Mae canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn cael eu hatgyfnerthu gan staff effeithiol.

Cryfderau:

(1) Yr oedd gan y GATI becyn cynefino ysgrifenedig ar gyfer pob aelod newydd o staff. Yr oedd cynefino ffurfiol yn digwydd ar gyfer staff i sicrhau cyflwyniad effeithiol i'w swydd newydd yn ystod wythnosau cyntaf eu gwasanaeth.

(2) Roedd yr oruchwyliaeth yn unol â fformat y cytunwyd arno, ac yn cael ei darparu gan oruchwylydd/rheolwr llinell, unwaith y mis o leiaf ar gyfer staff a oedd wedi sefydlu, ond yn fwy aml ar gyfer staff yn ystod eu cyfnod prawf. Cytunwyd ar agenda a chofnodion y cyfarfodydd hyn, a'u llofnodi a'u dyddio gan y ddau gyfranogydd. Yr oedd 84% o'r staff yn derbyn goruchwyliaeth fisol/bob chwe wythnos a datganodd yr holl staff a ymatebodd ei bod o ansawdd digonol neu ragorol.

(3) Yr oedd yn eglur fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a'u bod yn cefnogi'i gilydd.

(4) Yr oedd gan y GATI cynllun gwirfoddolwyr/mentoriaid llwyddiannus yn ei le a oedd yn cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr.

(5) Roedd y broses arfarnu flynyddol yn gynhwysfawr ac yn ymwneud ag adolygu amcanion y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn nodi agweddau cadarnhaol yn ogystal â meysydd i'w datblygu ac yn ystyried anghenion a chyfleoedd hyfforddi ymarferol. Roedd yr arfarniad yn rhoi lle i'r aelod staff roi ei sylwadau personol a byddai'r ddau gyfranogydd dan sylw'n ei lofnodi a'i ddyddio. Dywedodd 92% o'r atebwyr eu bod wedi cael eu harfarnu yn ystod y 12 mis blaenorol a dywedodd eraill yn ystod y cyfweliad bod bwriad i'w harfarnu a bod y dyddiad wedi'i bennu. Dywedodd 82% o'r atebwyr fod yr arfarnu'n gysylltiedig â Chynllun Busnes y GATI.

(6) Roedd staff arbenigol y GATI yn dod o dan bolisïau goruchwylio'r asiantaeth a oedd yn eu cyflogi ac fe gaent eu goruchwylio hefyd gan eu rheolwr llinell yn y GATI fel yr oedd yn briodol.

(7) Roedd staff y GATI yn gallu manteisio ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid a ddatblygwyd gan y BCI. Roedd pob aelod perthnasol o'r staff wedi cwblhau'r Dystysgrif Ymarfer Effeithiol.

(8) Gallai staff y GATI fanteisio ar hyfforddiant craidd a oedd yn eu galluogi i gyflawni eu rôl benodol yn effeithiol. Byddai hyfforddiant parhaus yn cynnig llwybr at gynlluniau hyfforddi a gymeradwyid gan y BCI, hyfforddiant allanol a ddarperid gan yr awdurdodau lleol ac asiantaethau partner. Yr oedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth, rheoli dicter a YOIS. Dywedodd 92% o'r staff y

cwrddwyd â'u hanghenion hyfforddi a datblygu.

(9) Roedd yr holl staff y cyfwelwyd â hwy, gan gynnwys staff gweinyddol a gwirfoddolwyr, yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r GATI. Nid oeddent yn teimlo dan unrhyw bwysau penodol oherwydd eu llwyth gwaith a theimlent yn ddiogel a'u bod yn derbyn cefnogaeth yn y GATI.

(10) Roedd rhaglen gynefino a hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff gwirfoddol, gan gynnwys modiwlau craidd ac arbenigol a oedd yn berthnasol i'w rolau. Trefnwyd cyrsiau i ddiwallu anghenion aelodau'r panel troseddwyr ifanc, Oedolion Priodol, a gweithwyr gwneud iawn.

(11) Roedd gweithdrefnau clir yn eu lle i reoli gweithdrefnau disgyblu, gallu a chwynion.

(12) Roedd gan y GATI weithdrefnau i sicrhau bod pob archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'u diweddaru ac yn cael eu hadolygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Gwiriwyd y rhain adeg yr arolygiad a gwelwyd eu bod mewn trefn.

(13) Cyflwynwyd taflenni cwyno dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac yr oedd cwynion a chanmoliaeth yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfod wythnos y tîm ac yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau.

Meysydd i'w gwella:

(1) Gan nad oedd Cyngor Gofal Cymru'n cydnabod Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid y BCI fel rhan o'i fframwaith cymwysterau ei hun yng Nghymru. Dywedodd staff eu bod yn amharod i ymgysylltu â hyfforddiant nad oedd yn cael ei gydnabod o fewn strwythurau presennol awdurdodau lleol yng Nghymru. Er nad yw'n fater uniongyrchol i'r GATI yn y tymor byr, gallai gael effaith yn y tymor hwy ar allu'r GATI i gadw staff.

(2) Arolygwyd cofnodion goruchwylio ac arfarnu staff a chanfuwyd fod diffyg cysondeb yn y ffordd yr oedd y cofnodion yn cael eu cadw. Nid oedd strwythur i ffeiliau bob amser, nid oedd cofnodion wedi'u llofnodi a'u hadlofnodi, ac nid oedd tystiolaeth gyson o gynnydd yn erbyn amcanion. Nid oedd cytundebau goruchwylio'n cael eu hadolygu, ac er bod cyrsiau hyfforddi'n cael eu cofnodi, nid oedd cynlluniau hyfforddi unigol yn gysylltiedig â datblygiad personol a Chynllun Busnes y GATI.

(3) Nid oedd unrhyw raglen hyfforddiant a datblygu gynhwysfawr ar gyfer staff.

Casgliad: Yr asesiad ar gyfer y meini prawf hyn yw **da.**

Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol

Ardal

Lleolwyd GATI Sir Gaerfyrddin yng Nghymru, ac fel GATI unigol, yr oedd yn ymestyn dros awdurdod lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Poblogaeth yr ardal oedd 172,842 yn ôl Cyfrifiad 2001, ac roedd 10.4% o'r boblogaeth hon rhwng deg ac 17 oed, sef yr un fath â chyfartaledd Cymru a Lloegr. Gyda 64% o'r boblogaeth yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, yr oedd yn cael ei gyfrif yr awdurdod lleol trydydd uchaf yng Nghymru yng nghyswllt hynny. Gallai 71.7% o blant a phobl ifanc rhwng pump a phymtheg mlwydd oed siarad Cymraeg. Yr oedd amrywiaeth rhwng ardaloedd, gyda 75% yn gallu siarad Cymraeg mewn rhai wardiau a than 25% mewn rhai eraill.

Prydeinig Gwyn oedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn bennaf (99.1%). Roedd y boblogaeth a oedd o gefndir du neu gefndir lleiafrif ethnig (0.9%) yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (8.7%).

Yr oedd lefelau troseddau a gofnodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng deg a 17 mlwydd oed ar draws yr ardal, sef 61.7% y 1,000, yn uwch na chyfartaledd Cymru/Lloegr, sef 54.4.

TTI

Yr oedd y GATI yn un o bedwar TTI a wasanaethai ardal Prawf ac ardal Heddlu Dyfed Powys. Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin yn cynllunio ac yn dylunio gwasanaethau gan gynnwys gofal sylfaenol, deintyddiaeth a fferylliaeth ac yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda, a oedd yn darparu gofal mewnol mewn ysbytai a gwasanaethau cymunedol megis CAMHS a nyrsys ysgol.

Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn dangos fod gan y GATI 42 o staff a 55 o wirfoddolwyr. Menywod oedd 82% o'r staff ac nid oedd yr un aelod o'r staff yn dod o gefndir du neu o gefndir lleiafrif ethnig. Roedd 12% o'r staff yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn gallu darparu rhai gwasanaethau yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth.

Lleolid gwaith y GATI mewn un brif swyddfa yn Llanelli, gydag ail swyddfa yng Nghaerfyrddin. O'r swyddfeydd hyn, gwasanaethai'r GATI ardal ddaearyddol fawr a oedd yn cynnwys tri llys ieuenctid.

Data am berfformiad y BCI

Wrth i'r BCI grynhoi perfformiad cyffredinol y TTI, fel yr oedd adeg yr arolygiad ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mehefin 2008, rhoddwyd sgôr o 4 i GATI ar raddfa lle mai 5 oedd y sgôr uchaf. Roedd hyn yn uwch na'r perfformiad cenedlaethol a rhanbarthol, a pherfformiad TTI tebyg (lefel 3).

Y sgôr a roddwyd ar gyfer lleihau aildroseddu oedd 5, a oedd yn sylweddol uwch na phob cymharydd.

Atodiad 2: Data'r arolygiad

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Hydref 2008.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- tystiolaeth ymlaen llaw
- archwilio data perfformiad ac asesiadau'r BCI
- archwilio'r ymarfer mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
  - deg ffeil atal
  - deg rhybudd terfynol
  - deg cosb haen gyntaf (gorchmynion cyfeirio, gorchmynion gwneud iawn)
  - un-ar-ddeg o ddedfrydau cymunedol.
  - deg dedfryd cadw dan glo
- cyfweliadau ac ymatebion i holiaduron gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, a dioddefwyr
- cyfarfodydd â staff, rheolwyr a phartneriaid.

Siartiau data

Mae'r sampl a ddewiswyd yn ystyried canran y merched neu'r menywod ifanc sydd â chysylltiad â'r GATI. Yna, cynhwysir nifer i'w cynrychioli yn sampl yr achosion.



Mae'r sampl a ddewiswyd yn ystyried canran y plant a'r bobl ifanc o gefndir du neu leiafrif ethnig sydd â chysylltiad â'r GATI. Yna, cynhwysir nifer i'w cynrychioli yn sampl yr achosion.



Mae'r sampl a ddewiswyd yn cynnwys nifer o achosion RN ac achosion ISSP/PPO. Mae'r niferoedd a gynhwysir yn dibynnu ar faint y TTI/GTI dan sylw ac yn amrywio o 6-12 achos y sampl.





Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygiad

Dechreuodd rhaglen cydarolygu'r TTI ym mis Medi 2003 a dyma'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Mae wedi cael ei rhoi ar waith dros bedwar cyfnod, gan arolygu pob TTI yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd. Ers mis Medi 2005, mae'r canfyddiadau yn Lloegr wedi cyfrannu at y Cyd-arolygiadau Ardal ar wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol o wasanaethau awdurdodau lleol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio).

Atodiad 4: Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf EM, ac fe'i hariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein pwrpas yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc gyda'r nod o leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan adain y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- adrodd ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl y galw
- cyfrannu at well perfformiad gan y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at bolisi cadarn a darparu gwasanaethau effeithiol, yn enwedig o ran amddiffyn y cyhoedd, drwy roi cyngor a lledaenu arferion da, ar sail canfyddiadau arolygon, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo'n frwd gydraddoldeb rhwng yr hiliau a materion ehangach sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, yn enwedig yn y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig drwy gydweithio ag arolygiaethau eraill.

Nod Arolygiaeth Prawf EM yw cyflawni ei phwrpas a gwireddu egwyddorion y Llywodraeth o ran arolygu'r sector cyhoeddus drwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd ynglŷn â chanfyddiadau arolygiadau a'u cyhoeddi ynghyd â chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a hynny'n brydlon ac o safon dda.
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr hiliau a sicrhau sylw ehangach i amrywiaeth yn holl agweddau ein gwaith, gan gynnwys o fewn ein harferion cyflogi a phrosesau ein trefniadaeth ni'n hunain
- ar gyfer y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith, ceisio sicrhau bod cyn lleied o waith ychwanegol ag y bo modd yn deillio o'r broses arolygu.

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnig sylwadau am arolygiad, am adroddiad neu am unrhyw fater arall o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM
2il Lawr, Ashley House
2 Monck Street
Llundain SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation